Gweinyddiaeth Cyfiawnder

# Adroddiad ar weithredu argymhellion Comisiwn y Gyfraith

Mai 2025

HC 850

Gweinyddiaeth Cyfiawnder

# Adroddiad ar weithredu argymhellion Comisiwn y Gyfraith

Cyflwynwyd i'r Senedd gan yr Arglwydd Ganghellor ac Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder yn unol ag adran 3A o Ddeddf Comisiwn y Gyfraith 1965

Gorchmynnwyd gan Dŷ'r Cyffredin i'w argraffu ar 7 Mai 2025

HC 850

© Hawlfraint y Goron 2025

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/official-documents

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom i Karen.Finlay@justice.gov.uk.

ISBN 978-1-5286-5655-9

E03342838 05/25

Wedi'i argraffu ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 40% o gynnwys ffibr wedi'i ailgylchu

Argraffwyd yn y DU gan HH Associates Ltd. ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi

# Cynnwys

**Rhagymadrodd** **3**

**Cwmpas yr Adroddiad** **5**

**Argymhellion sydd wedi cael eu gweithredu** **6**

**Argymhellion nad ydynt wedi'u gweithredu eto** **9**

(i) Argymhellion yn y broses weithredu 9

(ii) Argymhellion sy'n aros am benderfyniad y Llywodraeth ar eu gweithredu 21

**Penderfyniadau a gymerwyd i beidio â gweithredu** **36**

# Rhagymadrodd

Mae'n bleser gen i gyflwyno'r adroddiad hwn ar sut mae'r Llywodraeth wedi gweithredu argymhellion Comisiwn y Gyfraith. Er bod llawer o'r gwaith a wnaed ar weithredu'r argymhellion yn yr Adroddiad hwn wedi digwydd o dan y Llywodraeth flaenorol, mae'n ddyletswydd ar y Llywodraeth hon i adrodd ar y gwaith, a byddwn yn parhau i ystyried yr holl argymhellion sy'n weddill.

Dyma'r nawfed adroddiad i'w gyflwyno yn dilyn pasio Deddf Comisiwn y Gyfraith 2009. Mae'r Ddeddf hon yn gosod dyletswydd ar yr Arglwydd Ganghellor i adrodd i'r Senedd ar y graddau y mae argymhellion Comisiwn y Gyfraith wedi'u gweithredu gan y Llywodraeth. Mae'r ddogfen hon yn ymdrin â statws gweithredu adroddiadau Comisiwn y Gyfraith yn ystod y cyfnod rhwng Ionawr 2023 a Ionawr 2024, ond mae hefyd yn ymdrin â chynnydd gweithredu rhwng Ionawr 2024 a'r dyddiad cyhoeddi.

O dan Ddeddf Comisiwn y Gyfraith 1965, dylai'r Comisiwn gynnwys (ac eithrio yn ystod unrhyw swydd wag dros dro) Cadeirydd a phedwar Comisiynydd arall a benodir gan yr Arglwydd Ganghellor fel eu Gweinidog sy’n noddi. Ar hyn o bryd, mae'r Comisiwn yn cael ei arwain gan Syr Peter Fraser, a ddaeth yn Gadeirydd newydd ym mis Rhagfyr 2023, a thri Chomisiynydd arall sy'n arwain gwaith ar draws eu meysydd arbenigol o'r gyfraith. Ar hyn o bryd mae'r Comisiwn yn recriwtio i lenwi swydd wag ar gyfer pedwerydd Comisiynydd mewn Cyfraith Fasnachol a Chyffredin. Gellir comisiynu prosiectau a gyflawnir gan y Comisiynwyr fel rhan o'u rhaglenni diwygio neu eu cyflawni trwy atgyfeiriadau unigol gan Weinidogion ar draws y Llywodraeth.

Yn ystod y cyfnod a gwmpesir gan yr adroddiad hwn, mae nifer o argymhellion yn deillio o brosiectau a gynhaliwyd gan Gomisiwn y Gyfraith wedi cael eu gweithredu, naill ai'n rhannol neu'n llawn.

Aethpwyd ymlaen â nifer o argymhellion mewn deddfwriaeth sylfaenol dros y cyfnod hwn – y Bil Cymrodeddu, y Bil Cerbydau Awtomeiddiedig, y Bil Cyfiawnder Troseddol a'r Bil Diwygio Lesddaliad a Rhydd-ddaliad, a gyflwynwyd i gyd yn y Senedd ym mis Tachwedd 2023 o dan y llywodraeth flaenorol. Fodd bynnag, yn dilyn cyhoeddi'r Etholiad Cyffredinol ar 22 Mai 2024, methodd y Bil Cymrodeddu a'r Bil Cyfiawnder Troseddol. Ailgyflwynwyd y Bil Cymrodeddu i'r Senedd yn ddiweddarach ar 18 Gorffennaf a daeth yn Ddeddf ar 24 Chwefror 2025. Daeth y Bil Cerbydau Awtomeiddiedig a'r Bil Diwygio Lesddaliad a Rhydd-ddaliad yn Ddeddfau ar 20 Mai a 24 Mai 2024 yn y drefn honno. Cyflwynodd y Ddeddf Diogelwch Ar-lein, a dderbyniodd Gydsyniad Brenhinol ym mis Hydref 2023, nifer o droseddau cyfathrebu newydd, gan gynnwys trosedd newydd o seiber-fflachio, annog neu gynorthwyo hunan-niweidio difrifol, a phedair trosedd newydd o rannu neu fygwth rhannu delweddau preifat, y mae pob un ohonynt wedi’u seilio’n agos ar argymhellion Comisiwn y

Gyfraith. Gweithredwyd Deddf Dogfennau Masnach Electronig 2023 trwy'r weithdrefn seneddol arbennig ar gyfer biliau Comisiwn y Gyfraith. Derbyniodd Gydsyniad Brenhinol ym mis Gorffennaf 2023 a daeth i rym ym mis Medi 2023.

Mae Comisiwn y Gyfraith yn darparu cofnod cynhwysfawr a manwl o gynnydd ym mhob maes o'u gwaith yn eu hadroddiad blynyddol bob blwyddyn – cyhoeddwyd yr un diweddaraf ym mis Mai 2024.

Mae'r Comisiwn yn dal i fod yn brysur yn gweithio ar brosiectau cyfredol, gan gynnwys y rhai sydd heb eu cychwyn eto o'r 13eg rhaglen. Maent hefyd yn dal i fod yn y broses o ddadansoddi a datblygu cynigion diwygio cyfraith y 14eg rhaglen, a fydd yn parhau nes bod y Llywodraeth a'r Comisiwn ill dau yn cytuno mai dyma'r amser iawn iddynt lansio'r rhaglen newydd. Edrychaf ymlaen at weithio gyda nhw ar hyn a phrosiectau diwygio eraill yn y dyfodol.

Hoffwn ddiolch yn ddiffuant i'r sefydliad a'r Cadeirydd, Syr Peter Fraser, am yr holl waith a wnaed rhwng Ionawr 2023 ac Ionawr 2024, hyd at ddyddiad y cyhoeddiad. Edrychaf ymlaen at weld y llawer mwy o bethau y bydd Comisiwn y Gyfraith yn eu cyflawni tra bydd Syr Peter Fraser yn Gadeirydd.

**Y Gwir Anrhydeddus Shabana Mahmood AS**
**Arglwydd Ganghellor ac Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder**

# Cwmpas yr Adroddiad

1. Mae Adran 3A o Ddeddf Comisiynau’r Gyfraith 1965 yn gosod dyletswydd ar yr Arglwydd Ganghellor i adrodd i’r Senedd ar y graddau y mae argymhellion Comisiwn y Gyfraith wedi’u gweithredu gan y Llywodraeth.

2. Dyma'r nawfed adroddiad i'w gyhoeddi gan y Llywodraeth o dan adran 3A. Fel sy'n ofynnol, mae'r adroddiad yn cwmpasu argymhellion Comisiwn y Gyfraith sydd wedi'u gweithredu gan y Llywodraeth flaenorol; argymhellion nad ydynt wedi'u gweithredu eto, gan gynnwys cynlluniau ar gyfer gweithredu; a phenderfyniadau a gymerwyd i beidio â gweithredu argymhellion. Mae'r adroddiad yn cwmpasu'r cyfnod 12 Ionawr 2023 i 11 Ionawr 2024, ond mae hefyd wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu cynnydd gweithredu rhwng Ionawr 2024 a'r dyddiad cyhoeddi.

3. Mae cwmpas yr Adroddiad yn ymwneud â Chomisiwn y Gyfraith yng Nghymru a Lloegr. Fodd bynnag, mae'r adroddiad yn nodi lle mae prosiectau wedi'u cynnal ar y cyd â Chomisiwn Cyfraith yr Alban. Mae'r adroddiad yn ymdrin yn bennaf ag argymhellion Comisiwn y Gyfraith sydd i Lywodraeth EF eu gweithredu. Cynhyrchir adroddiad ar wahân ar gyfer yr argymhellion hynny sydd i Lywodraeth Cymru eu gweithredu, felly nid ydynt wedi'u manylu yn yr adroddiad hwn.

# Argymhellion sydd wedi cael eu gweithredu

**Dogfennau Masnach Electronig** [1]

4. Ym mis Mawrth 2022, cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith ei adroddiad terfynol a'i Fil drafft yn nodi argymhellion i ganiatáu cydnabyddiaeth gyfreithiol i ddogfennau masnach fel biliau llwytho a biliau cyfnewid ar ffurf electronig. Derbyniodd y Llywodraeth flaenorol yr argymhellion, a weithredwyd yn Neddf Dogfennau Masnach Electronig 2023. Daeth y Ddeddf i rym ym mis Medi 2023.

5. Mae masnach ryngwladol werth tua £1.266 triliwn i'r DU. Mae'r broses o symud nwyddau ar draws ffiniau yn cynnwys amrywiaeth o actorion gan gynnwys darparwyr gwasanaethau trafnidiaeth, yswiriant, cyllid a logisteg. Er gwaethaf maint a soffistigedigrwydd y farchnad hon, mae llawer o'i phrosesau, a'r cyfreithiau sy'n sail iddynt, yn seiliedig ar arferion a ddatblygwyd gan fasnachwyr gannoedd o flynyddoedd yn ôl. Yn benodol, mae bod yn "ddeiliad" neu gael "meddiant" (corfforol) o ddogfen fasnach o arwyddocâd arbennig. Fodd bynnag, nid oedd y gyfraith yn caniatáu meddu ar ddogfen electronig. O ganlyniad, roedd yn rhaid i bron pob dogfen a ddefnyddir mewn masnach ryngwladol fod ar ffurf bapur.

6. Yn seiliedig ar argymhellion Comisiwn y Gyfraith, mae Deddf Dogfennau Masnach Electronig 2023 yn darparu y dylai dogfen fasnach ar ffurf electronig fedru cael ei meddu ar yr amod bod meini prawf penodol yn cael eu bodloni. Mae'r meini prawf hyn wedi'u cynllunio i efelychu nodweddion amlwg dogfennau masnach papur. Mae'r argymhellion yn berthnasol i ddogfennau sy'n dibynnu ar feddu ar gyfer eu swyddogaeth fel mater o gyfraith neu arfer masnachol, gydag eithriadau penodol ar gyfer bondiau dygiedydd a gwarantau heb eu hardystio o dan Reoliadau Gwarantau Heb eu Hardystio 2001.

7. Mae effeithiau cadarnhaol posibl defnyddio dogfennau masnach electronig – gan gynnwys enillion ariannol ac effeithlonrwydd, a manteision amgylcheddol – yn enfawr. Nododd asesiad effaith y Llywodraeth hon ei hun fanteision o £1.3bn i economi’r DU.[2]

8. Mae Comisiwn y Gyfraith yn gwneud gwaith pellach yn edrych ar elfennau cyfraith ryngwladol breifat Dogfennau Masnach Electronig.

[1] Electronic Trade Documents: Report and Bill (LC405) (15.03.2022)

[2] https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2023/38/pdfs/ukpgaod_20230038_en.pdf

### Cyfraith Bywyd Gwyllt: Adroddiad Terfynol[3]

9. Ar 11 Chwefror 2014, cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith ei adroddiad cyntaf ar Gyfraith Bywyd Gwyllt: Rheoli Rhywogaethau Estron Ymledol. Roedd y prosiect hwn yn rhan o brosiect ehangach ar gyfraith bywyd gwyllt a gyflwynwyd ar gais Defra a Llywodraeth Cymru i'w gynnwys yn 11eg Rhaglen diwygio'r gyfraith Comisiwn y Gyfraith. Cyflwynwyd rhai o'r argymhellion yn yr adroddiad hwnnw yn Neddf Seilwaith 2015. Yn ogystal, trwy Orchymyn Rhywogaethau Estron Ymledol (Gorfodi a Thrwyddedu) 2019, mae Defra wedi rhoi deddfwriaeth ar waith sy'n gwahardd mewnforio, cadw, bridio, gwerthu, a chludo a rhyddhau rhywogaethau estron ymledol o bryder arbennig, a system drwyddedu ar gyfer mesurau rheoli ar gyfer gweithgareddau a waherddir fel arall sy'n helpu i ddileu, rheoli neu atal rhywogaethau ymledol eang eu dosbarthiad.

### Moderneiddio Troseddau Cyfathrebu[4]

10. Cyflwynodd Deddf Diogelwch Ar-lein 2023 droseddau cyfathrebu newydd yn seiliedig ar argymhellion Comisiwn y Gyfraith: trosedd cyfathrebu ffug, trosedd cyfathrebu bygythiol, trosedd fflachio seiber, troseddau anfon neu ddangos delweddau fflachio yn electronig gyda'r bwriad o achosi niwed i berson ag epilepsi, a throsedd annog neu gynorthwyo hunan-niweidio difrifol. Rhoddwyd y troseddau hyn ar waith ar 31 Ionawr 2024.

11. Ni chafodd y troseddau o anfon neu ddangos delweddau sy'n fflachio a'r drosedd o annog neu gynorthwyo hunan-niweidio difrifol eu cynnwys yn y Bil Diogelwch Ar-lein i ddechrau, ond cytunodd y Llywodraeth flaenorol i'w hychwanegu yn ystod taith y Bil mewn ymateb i bryderon a godwyd yn y Senedd. Mae'r drosedd o annog neu gynorthwyo hunan-niweidio difrifol yn y Ddeddf Diogelwch Ar-lein wedi'i chyfyngu i anogaeth neu gymorth a roddir trwy gyfathrebiadau, cyhoeddiadau neu ohebiaeth llafar, ysgrifenedig neu electronig, ac mae hefyd yn cynnwys senario lle mae person yn dangos cyfathrebiad i berson arall. Nod y Bil Cyfiawnder Troseddol oedd diddymu'r drosedd yn y Ddeddf Diogelwch Ar-lein (mewn perthynas â Chymru a Lloegr a Gogledd Iwerddon) a'i disodli ag un ehangach a fyddai'n cwmpasu annog neu gynorthwyo hunan-niweidio difrifol trwy gyfathrebiadau ac mewn unrhyw ffordd arall. Fodd bynnag, cafodd y Bil ei roi o’r neilltu oherwydd galw'r Etholiad Cyffredinol.

12. Fel y nodwyd yn flaenorol, penderfynodd y Llywodraeth flaenorol, ar y cyfan, beidio â chyflwyno argymhellion Comisiwn y Gyfraith ar gyfer trosedd cyfathrebu niweidiol drwy'r Ddeddf Diogelwch Ar-lein. Felly, er mwyn osgoi gadael bwlch mewn cyfraith droseddol, penderfynodd y Llywodraeth flaenorol beidio â diddymu'r troseddau cyfathrebu presennol (Deddf Cyfathrebu Maleisus 1988 ac adran 127(1) o Ddeddf

---

3 Wildlife Law: Final report (LC 362) (10.11.2015)

4 Modernising Communications Offences (LC399) (20.07.21)

Cyfathrebu 2003), ac yn lle hynny gwnaeth ddiwygiadau bach i'r deddfau hyn i osgoi gorgyffwrdd â'r drosedd cyfathrebu ffug a'r drosedd cyfathrebu bygythiol newydd.

# Argymhellion nad ydynt wedi'u gweithredu eto

## (i) Argymhellion yn y broses weithredu

### Diweddaru'r Ddeddf Cofrestru Tir 2002[5]

13. Yn 2018, cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith ei ganfyddiadau ar adolygiad Deddf Cofrestru Tir 2002. Argymhellodd yr adroddiad rai diwygiadau technegol i fynd i'r afael â materion yn y gyfraith, i wella atal twyll, ac i gyflymu, symleiddio a lleihau cost trosglwyddo eiddo i bawb.

14. Derbyniodd y Llywodraeth flaenorol yr adolygiad yn gadarnhaol, gan gynnig ymateb llawn i'r 53 o argymhellion ar Fawrth 25, 2021. Nododd y Llywodraeth flaenorol fod y rhan fwyaf o'r argymhellion yn dechnegol neu'n benodol, gyda thri yn effeithio ar awdurdodaeth y Tribiwnlys Haen Gyntaf, sy'n dyfarnu anghydfodau sy'n ymwneud â materion cofrestru tir. Ar y cyfan, barnodd y Llywodraeth flaenorol fod y system gofrestru tir yn effeithiol. Derbyniodd 40 o argymhellion, gan nodi y gallai fod angen addasiadau i nifer fach cyn eu gweithredu a gwrthododd dri argymhelliad, gan nodi pryderon ynghylch newidiadau sylweddol i'r system gofrestru tir effeithiol heb fuddion clir na chanlyniadau anfwriadol posibl. Roedd angen ystyried 10 argymhelliad ymhellach a rhoddodd ymateb y Llywodraeth flaenorol fewnwelediad i bob un.

15. Bydd gweithredu yn y dyfodol yn cyd-fynd â datblygu polisi cofrestru tir ehangach a blaenoriaethau strategaeth fusnes Cofrestrfa Tir EF a amlinellir yn ei Strategaeth 2022+. Mae cydweithio gweithredol â rhanddeiliaid yn gwella gwasanaethau gweithredu digidol electronig ac ar-lein ac yn dileu trafodion papur trwy dderbyn trosglwyddiadau a gweithredoedd wedi'u llofnodi'n electronig i'w cofrestru. Mae Grŵp Llywio'r Farchnad Eiddo Digidol, sef clymblaid o bartneriaid y Llywodraeth a'r diwydiant, wedi'i ffurfio i yrru trawsnewid digidol hanfodol yn y farchnad tir ac eiddo.

### Ffioedd digwyddiadau mewn eiddo ymddeol (Trosglwyddo Teitlau a Ffioedd Newid Meddiannaeth mewn Lesddaliad)[6]

16. Yn dilyn ymchwiliad gan y Swyddfa Masnachu Teg yn 2013 a ganfu y gallai ffioedd trosglwyddo, neu ffioedd digwyddiadau a godir mewn prydlesi eiddo ymddeol fod yn

5 Updating the Land Registry Act 2002 (LC380) (24.07.18)

6 Event Fees in Retirement Properties (LC373) (31.03.17)

annheg, gofynnodd y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (MHCLG) i Gomisiwn y Gyfraith ymchwilio a gwneud argymhellion ar gyfer newid.

17. Cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith eu hadroddiad terfynol ar 31 Mawrth 2017, a argymhellodd y dylid rheoleiddio ffioedd digwyddiadau gyda chyflwyno cod ymarfer newydd a gymeradwywyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gymunedau a Llywodraeth Leol ar y pryd; ac y dylid cefnogi'r cod ymarfer gan welliant i Ddeddf Hawliau Defnyddwyr 2015 fel y gall defnyddwyr ei orfodi. Lle bydd torri'r cod ymarfer, argymhellodd y Comisiwn na ddylai'r ffi digwyddiad fod yn daladwy yn y rhan fwyaf o achosion.

18. Cyhoeddodd y Llywodraeth flaenorol ymateb dros dro ym mis Tachwedd 2017, gan ddiolch i'r Comisiwn am yr adroddiad.

19. Ym mis Mawrth 2019, ymatebodd y Llywodraeth flaenorol i Gomisiwn y Gyfraith, gan gytuno i weithredu'r rhan fwyaf o'i argymhellion, ac i roi ystyriaeth bellach i argymhellion ar hawliau olyniaeth a chronfa ddata o eiddo ymddeol lesddaliad gyda ffioedd digwyddiadau.

20. Mae'r Llywodraeth hon yn rhoi ystyriaeth ofalus i adroddiad y Tasglu Tai Pobl Hŷn a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2024, gan gynnwys ei argymhelliad y dylai'r Llywodraeth weithredu argymhellion Comisiwn y Gyfraith yn 2017 i reoleiddio ffioedd digwyddiadau.

**Lesddaliad Preswyl a Chyfunddaliad[7]**

21. Yn 2020, cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith gyfres o bedwar adroddiad ar Lesddaliad Preswyl a Chyfunddaliad, sydd gyda'i gilydd yn anelu at gyflawni diwygiad ar raddfa eang o'r cyfundrefnau rhyddfreinio, hawl i reoli, a chyfunddaliad. Ym mis Ionawr 2020 cyhoeddwyd y cyntaf o'r pedwar adroddiad, yn ymdrin ag argymhellion ar agweddau gwerthuso rhyddfreinio, ac ar 21 Gorffennaf 2020 cyhoeddwyd tri adroddiad arall, ar yr agweddau sy'n weddill ar ryddfreinio yn ogystal â chyfunddaliad a'r hawl i reoli. Mae'r adroddiadau'n cynnwys nifer fawr o argymhellion.

22. Ymatebodd y Llywodraeth flaenorol i nifer o argymhellion y Comisiwn ar ryddfreinio a'r hawl i reoli.[8] Cafodd argymhellion allweddol Comisiwn y Gyfraith mewn perthynas

7 Leasehold home ownership: buying your freehold or extending your lease - Report on options to reduce the price payable (LC387) (9.1.2020); Leasehold home ownership: buying your freehold or extending your lease – Final Report (LC392) (27.7.2020); Leasehold home ownership: exercising the right to manage (LC393) (21.7.2020); Reinvigorating commonhold: the alternative to leasehold ownership (LC394) (21.07.2020)

8 https://www.gov.uk/government/news/government-reforms-make-it-easier-and-cheaper-for-leaseholders-to-buy-their-homes and https://www.gov.uk/government/publications/leasehold-valuation-enfranchisement-and-the-right-to-manage

â'r meysydd hynny eu gweithredu yn Neddf Diwygio Lesddaliad a Rhydd-ddaliad 2024.

23. Gwnaeth Araith y Brenin ym mis Gorffennaf 2024 yn glir y bydd y Llywodraeth hon yn diwygio'r system lesddaliad ymhellach drwy weithredu argymhellion sy'n weddill gan Gomisiwn y Gyfraith sy'n ymwneud â rhyddfreinio lesddaliad a'r hawl i reoli. Bydd hefyd yn cymryd camau i ddod â'r system lesddaliad i ben, gan adfywio cyfunddaliad drwy fframwaith cyfreithiol newydd cynhwysfawr a gwahardd gwerthu fflatiau lesddaliad newydd fel bod cyfunddaliad yn dod yn ddeiliadaeth ddiofyn.

24. Fel cam cyntaf, ar 3 Mawrth 2025, cyhoeddodd y Llywodraeth hon y Papur Gwyn ar Gyfunddaliad[9] lle ymrwymodd i gyflwyno fframwaith cyfreithiol newydd cynhwysfawr yn seiliedig ar y mwyafrif helaeth o'r argymhellion a wnaed gan Gomisiwn y Gyfraith yn eu hadroddiad yn 2020 *Adfywio Cyfunddaliad: y dewis arall yn lle perchnogaeth lesddaliad*.

### Symleiddio'r Rheolau Mewnfudo[10]

25. Cyhoeddwyd adroddiad Comisiwn y Gyfraith ar Symleiddio'r Rheolau Mewnfudo ddechrau 2020. Roedd yn cynnwys argymhelliad y dylai'r Swyddfa Gartref ddiwygio'r Rheolau Mewnfudo a'u hailddrafftio yn seiliedig ar yr egwyddorion (1) addasrwydd i'r defnyddiwr nad yw'n arbenigwr; (2) ehangder; (3) cywirdeb; (4) eglurder a hygyrchedd; (5) cysondeb; (6) gwydnwch (strwythur gwydn sy'n darparu ar gyfer gwelliannau); a (7) y gallu i gyflwyno ar ffurf ddigidol. At ei gilydd roedd 41 o argymhellion manwl ar ddrafftio a strwythur a phrosesau i sicrhau gwydnwch.

26. Cyhoeddodd y Swyddfa Gartref ei hymateb ym mis Mawrth 2020. Croesawodd yr ymateb adroddiad Comisiwn y Gyfraith a derbyniodd bob un o 41 argymhelliad Comisiwn y Gyfraith, yn gyfan gwbl neu'n rhannol. Yn unol â'r argymhellion, mae'r Swyddfa Gartref wedi sefydlu Pwyllgor Adolygu Symleiddio'r Rheolau i edrych ar ddrafftio a strwythur y rheolau. Oherwydd maint a chymhlethdod y rheolau, sydd wedi esblygu'n ailadroddus dros amser, penderfynwyd cyflwyno symleiddio fesul cam.

27. Yn hydref 2020, gosodwyd y gyfran gyntaf o reolau symlach. Mae'r rheolau symlach yn dilyn strwythur cyson, ac maent wedi'u drafftio mewn Saesneg plaen, yn unol â'r egwyddorion a nodir gan Gomisiwn y Gyfraith. Maent hefyd yn dechrau cydgrynhoi rheolau trawsbynciol (er enghraifft y rhai ar brawf o allu iaith a phrawf o gyllid), er mwyn sicrhau mwy o gysondeb. Ers hynny, mae llwybrau pellach a rheolau trawsbynciol wedi'u gweithredu a llwybrau newydd wedi'u cyflwyno gan gymhwyso'r dull symlach. Hyd yn hyn, mae dros 50 rhan o'r rheolau wedi'u symleiddio'n gyfan gwbl neu'n rhannol. Mae'r rheolau symlach hyn yn gam arwyddocaol wrth wireddu

[9] Commonhold White Paper, Commonhold White Paper - GOV.UK

[10] Simplifying the Immigration Rules (LC388) (13.01.2020)

ymrwymiad y Swyddfa Gartref i weithredu argymhellion Comisiwn y Gyfraith, gan roi mwy o eglurder i ymgeiswyr, gweithwyr achos a phob defnyddiwr arall o'r rheolau. Yn ogystal, mae'r rheolau symlach yn galluogi newid ehangach i sicrhau bod y systemau a'r prosesau'n cael eu symleiddio ac yn fwy uniongyrchol. Bydd y Rheolau Mewnfudo yn cael eu cydgrynhoi unwaith y bydd y llwybrau sy'n weddill wedi'u symleiddio.

**Rheoleiddio Gweithwyr Proffesiynol Iechyd a Gofal Cymdeithasol[11]**

28. Cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith ei adroddiad terfynol (gyda Bil drafft) ar 2 Ebrill 2014 ynghylch rheoleiddio gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ac, yn Lloegr yn unig, rheoleiddio gweithwyr cymdeithasol. Roedd hwn yn brosiect ar y cyd â Chomisiynau'r Gyfraith yn yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae'r adroddiad yn nodi argymhellion ar gyfer fframwaith cyfreithiol sengl newydd ar gyfer rheoleiddio gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ac mae'n anelu at gyflwyno fframwaith cyfreithiol cyson a fydd yn galluogi'r rheoleiddwyr yn well i gynnal eu dyletswydd i amddiffyn y cyhoedd, er enghraifft, cynnal gwrandawiadau addasrwydd i ymarfer.

29. Mae argymhellion y Comisiwn yn rhagweld gwelliannau ar draws rheoleiddio proffesiynol gan gynnwys strwythurau llywodraethu cadarn ar gyfer cyrff rheoleiddio, galluogi arloesedd mewn addysg a phrosesau mwy darbodus sy'n galluogi'r cyrff rheoleiddio i gymryd camau cyflymach i sicrhau diogelwch y cyhoedd.

30. Cyhoeddodd y Llywodraeth flaenorol ei hymateb ar 29 Ionawr 2015, gan nodi'r angen am waith pellach ar fireinio argymhellion Comisiwn y Gyfraith i gyflawni blaenoriaethau rheoleiddio, ymreolaeth a chost-effeithiolrwydd gwell, gan gynnal ffocws clir ar ddiogelu'r cyhoedd. Roedd y Llywodraeth flaenorol eisoes wedi cymryd mesurau fel y gallai pobl barhau i fod yn hyderus eu bod yn derbyn gofal o ansawdd uchel. Gwnaeth welliannau i'r ffordd y caiff meddygon, nyrsys a bydwragedd eu hymchwilio pan fo pryderon ynghylch eu gallu i drin cleifion yn ddiogel.

31. Ar 31 Hydref 2017, cyhoeddwyd papur ymgynghori gan y Llywodraeth, 'Hyrwyddo proffesiynoldeb, diwygio rheoleiddio', a oedd yn adeiladu ar adroddiad y Comisiwn ac a ddaeth i ben ddiwedd mis Ionawr 2018. Nododd ymateb y Llywodraeth flaenorol i'r ymgynghoriad a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2019 y camau nesaf arfaethedig. Dilynwyd hyn gan ymgynghoriad polisi manwl pellach, 'Rheoleiddio Gweithwyr Proffesiynol Gofal Iechyd, Diogelu'r Cyhoedd' a redodd o 24 Mawrth 2021 tan 16 Mehefin 2021, a nododd gynlluniau manwl i ddiwygio'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer pob un o'r gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn y DU trwy gyfres o ddeddfwriaeth eilaidd (Gorchmynion Adran 60).

11 Regulation of Healthcare Professionals: Regulation of Social Care Professionals in England (LC 345) (02.04.2014)

32. Roedd y cynigion yn cwmpasu pedwar maes eang:
    - Fframwaith Llywodraethu a Gweithredu'r rheoleiddwyr
    - Addysg a Hyfforddiant
    - Addasrwydd i ymarfer; a
    - Cofrestru

33. Cyhoeddodd y Llywodraeth flaenorol ei hymateb i'r ymgynghoriad ym mis Mawrth 2021 ac, ochr yn ochr â hynny, ymgynghoriad ar y Gorchymyn adran 60 cyntaf ar 17 Chwefror 2023. Daeth y ddeddfwriaeth hon, Gorchymyn Cymdeithion Anesthesia a Chymdeithion Meddygol 2024, i rym ym mis Mawrth 2024, ac mae'n rhoi pwerau i'r Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC) i ddod â chymdeithion anesthesia a chymdeithion meddygol i reoleiddio statudol o dan fframwaith rheoleiddio wedi'i foderneiddio o fis Rhagfyr 2024. Fe'i cynlluniwyd i weithredu fel templed ar gyfer y diwygiadau yn y dyfodol y gellid eu cyflwyno i bob rheoleiddiwr proffesiynol gofal iechyd.

34. Mae'r Llywodraeth hon wrthi'n ystyried ei blaenoriaethau ar gyfer rheoleiddio proffesiynol, a bydd yn eu nodi maes o law.

### Diogelu Data Swyddogol[12]

35. Cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith ei adroddiad terfynol ar Ddiogelu Data Swyddogol ar 1 Medi 2020. Mae'r adroddiad yn nodi argymhellion ar gyfer diwygio'r troseddau ysbïo a datgelu heb awdurdod o dan y Deddfau Cyfrinachau Swyddogol.

36. Ar 20 Rhagfyr 2023 daeth Rhannau 1–3 o Ddeddf Diogelwch Cenedlaethol 2023 i rym. Mae'r Ddeddf, a dderbyniodd Gydsyniad Brenhinol ym mis Gorffennaf 2023, yn creu troseddau, offer a phwerau newydd a modern i ddelio â bygythiadau i’r wladwriaeth, gan gynnwys bygythiad ysbïo, ac fe'i llywiwyd gan adroddiad ac argymhellion Comisiwn y Gyfraith ar Ddeddfau Cyfrinachau Swyddogol 1911, 1920 a 1939.

37. Mewn perthynas ag argymhellion Comisiwn y Gyfraith mewn perthynas â Deddf Cyfrinachau Swyddogol 1989, mae'r Llywodraeth yn parhau i gadw'r sefyllfa o ran y diwygiad dan adolygiad.

### Gorfodi Gorchmynion Ariannol Teuluol[13]

38. Cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith ei adroddiad ar orfodi gorchmynion ariannol teuluol ym mis Rhagfyr 2016, yn dilyn pryderon a godwyd gan ymarferwyr bod y llwybrau a'r

---

[12] Protection of Official Data (LC395) (01.09.20)

[13] Enforcement of Family Financial Orders (LC370) (14 12.2016)

gweithdrefnau cyfreithiol ar gyfer gorfodi taliad gorchmynion ariannol a wnaed gan y llys teuluol yn ddiangen o gymhleth.

39. Argymhellodd Comisiwn y Gyfraith ystod o ddiwygiadau a gynlluniwyd i wneud gorfodi gorchmynion ariannol teuluol yn fwy effeithiol, yn fwy hygyrch ac yn decach. Argymhellodd Comisiwn y Gyfraith newidiadau gweithdrefnol a diwygio statudol. Roedd yr argymhellion yn cynnwys cydgrynhoi'r holl reolau gweithdrefnol sy'n ymdrin â gorfodi gorchmynion ariannol teuluol, yn ogystal â chyflwyno pwerau newydd i'r llys ddileu, am hyd at 12 mis, drwyddedau gyrru a phasbortau dyledwyr sy'n gallu talu ond sy'n dewis peidio â gwneud hynny.

40. Yn dilyn ymateb terfynol y Llywodraeth flaenorol ar 23 Gorffennaf 2018, cynigiodd fwrw ymlaen â'r argymhellion hynny sy'n gofyn am newidiadau i reolau gweithdrefnol a newidiadau gweithredol yn hytrach na newidiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol, cyn dod i farn derfynol ynghylch a ddylai fwrw ymlaen â'r argymhellion hynny sy'n gofyn am ddiwygio statudol.

41. Cynhaliwyd ymgynghoriad ar newidiadau arfaethedig i'r Rheolau Gweithdrefn Teulu sy'n ymdrin â gorfodi gorchmynion ariannol teuluol, yn unol â'r argymhellion a wnaed gan Gomisiwn y Gyfraith yn ei adroddiad, gan y Pwyllgor Rheolau Gweithdrefn Teulu ym mis Gorffennaf ac Awst 2020. Yn dilyn yr ymgynghoriad hwn, mae'r Llywodraeth wedi gweithio gyda Grŵp Gwaith Gorfodi pwrpasol y Pwyllgor Rheolau Gweithdrefn Teulu i ystyried newidiadau i reolau gweithdrefn sy'n ymdrin â gorfodi gorchmynion ariannol. Cymeradwyodd y Pwyllgor Rheolau Gweithdrefn Teulu ym mis Tachwedd 2022 welliant i Reol Gweithdrefn Teulu 33.3(3), fel y bydd gofyn i ymatebwyr i geisiadau gorfodi cyffredinol ddarparu datganiad ariannol i'r llys yn nodi eu sefyllfa ariannol o leiaf 7 diwrnod cyn y gwrandawiad cyntaf yng nghais gorfodi'r ymgeisydd. Gweithredwyd y newid rheol hwn ar 6 Ebrill 2023.

42. Adolygodd y Pwyllgor Rheolau Gweithdrefn Teulu weithrediad y newid rheol hwn ym mis Ebrill 2024. Ystyriodd fod Rheol Gweithdrefn Teulu 33.3(3) yn gweithio'n dda a dylai barhau heb newid. Bydd y Llywodraeth hon yn ystyried a ddylid bwrw ymlaen ag argymhellion Comisiwn y Gyfraith sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddiwygio statudol, yn ogystal â newidiadau gweithdrefnol pellach posibl mewn perthynas â gorfodi, yn dilyn cyhoeddi Adroddiad Cwmpasu Comisiwn y Gyfraith ar Rwymedïau Ariannol ar Ysgariad a Diddymiad, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2024.

## Cymryd, Gwneud a Rhannu Delweddau o Natur Bersonol Heb Ganiatâd[14]

43. Cyhoeddodd y Comisiwn ei adroddiad terfynol “Cam-drin Delweddau o Natur Bersonol” ym mis Gorffennaf 2022. Argymhellodd hwn ddiddymu troseddau presennol sy’n mynd i’r afael â cham-drin delweddau o natur bersonol, a’u disodli â

[14] Intimate Image Abuse (LC407) (06.07.22)

phecyn cydlynol o droseddau sy’n cwmpasu cymryd a rhannu delweddau o natur bersonol heb ganiatâd, a fyddai’n gwneud y gyfraith droseddol yn fwy cyson ac yn ei hehangu i amddiffyn dioddefwyr ymhellach.

44. Ym mis Tachwedd 2022, cyhoeddodd y Llywodraeth flaenorol ei bwriad i greu llu o droseddau newydd i ymdrin â cham-drin delweddau o natur bersonol yn seiliedig yn agos ar argymhellion Comisiwn y Gyfraith. Diddymodd Deddf Diogelwch Ar-lein 2023 y troseddau o ddatgelu neu fygwth datgelu delweddau rhywiol preifat a'u disodli â phedair trosedd newydd o rannu neu fygwth rhannu delweddau o natur bersonol.

45. Roedd y Mesur Cyfiawnder Troseddol, a gyflwynwyd gan y Llywodraeth flaenorol, yn cynnwys troseddau newydd i fynd i'r afael â chymryd a recordio delweddau o natur bersonol heb ganiatâd a gosod offer i alluogi cyflawni trosedd cymryd neu recordio delweddau. Syrthiodd y Mesur Cyfiawnder Troseddol pan ddiddymwyd y Senedd ym mis Mai 2024.

46. Mae'r Llywodraeth hon wedi ymrwymo i fynd i'r afael â phob math o drais yn erbyn menywod a merched, gan gynnwys cam-drin sy'n seiliedig ar ddelweddau, ac ar ddechrau'r flwyddyn cyhoeddodd gynlluniau i gyflwyno troseddau newydd ar gyfer tynnu delweddau o natur bersonol heb ganiatâd a gosod offer gyda'r bwriad o gyflawni'r troseddau hyn.

### Cerbydau Awtomeiddiedig[15]

47. Ym mis Mawrth 2018, gofynnodd Canolfan Cerbydau Cysylltiedig ac Awtonomaidd (CCAV) y Llywodraeth i Gomisiwn y Gyfraith gynnal adolygiad pellgyrhaeddol o fframwaith rheoleiddio'r DU ar gyfer cerbydau awtomeiddiedig ar y ffordd, gan adeiladu ar waith CCAV a'r diwygiadau i gyfraith yswiriant yn Neddf Cerbydau Awtomeiddiedig a Thrydanol 2018. Nod y prosiect oedd hyrwyddo hyder yn y cyfreithiau ynghylch defnyddio cerbydau awtomeiddiedig yn ddiogel, ac yn y DU fel lleoliad bywiog, blaenllaw yn y byd ar gyfer y diwydiant cerbydau cysylltiedig ac awtomeiddiedig. Ar y cyd â Chomisiwn Cyfraith yr Alban, cyhoeddwyd tri phapur ymgynghori yn 2019, 2020 a 2021. Nododd y rhain broblemau dybryd yn y gyfraith a allai fod yn rhwystrau i ddefnyddio cerbydau awtomeiddiedig, o ddeddfwriaeth traffig ffyrdd sy'n canolbwyntio ar "y gyrrwr", safonau cerbydau, troseddau a thrafnidiaeth gyhoeddus. Drwy gydol y prosiect, roedd diogelwch yn flaenllaw yng nghynigion Comisiwn y Gyfraith, a oedd hefyd yn ceisio cadw'r hyblygrwydd sydd ei angen i ddarparu ar gyfer datblygiad yn y dyfodol.

48. Cyhoeddwyd adroddiad Comisiwn y Gyfraith ar 26 Ionawr 2022. Mae ei argymhellion yn cwmpasu cymeradwyaeth ac awdurdodiad cychwynnol cerbydau hunan-yrru, monitro parhaus o'u perfformiad tra byddant ar y ffordd, marchnata camarweiniol, ac

[15] Automated Vehicles: Joint Report Law Com No 404

atebolrwydd troseddol a sifil. Mae hyn yn cynnwys ffurfioli'r prawf ar gyfer hunan-yrru yn gyfraith; proses gymeradwyo ac awdurdodi dau gam yn adeiladu ar gynlluniau rhyngwladol a domestig presennol; cynllun sicrhau diogelwch newydd mewn defnydd; rolau cyfreithiol newydd ar gyfer defnyddwyr, gweithgynhyrchwyr a gweithredwyr gwasanaethau; a throseddau sy'n dal gweithgynhyrchwyr a gweithredwyr gwasanaethau yn gyfrifol am gamliwio neu beidio â datgelu gwybodaeth sy'n berthnasol i ddiogelwch.

49. Ymatebodd y Llywodraeth flaenorol yn ffurfiol i'r adroddiad yn y papur Symudedd Cysylltiedig ac Awtomataidd (CAM) 2025[16] gyda phapur gorchymyn a osodwyd yn y Senedd, ym mis Awst 2022. Cytunodd y Llywodraeth flaenorol i'r rhan fwyaf o argymhellion y Comisiynau, ac ym mis Tachwedd 2023 cyflwynodd ddeddfwriaeth sylfaenol yn y Senedd i weithredu'r argymhellion a chreu fframwaith rheoleiddio pwrpasol er mwyn sicrhau diogelwch cerbydau hunan-yrru a gosod cyfrifoldebau clir ar gyfer eu defnydd a'u perfformiad.

50. Cafodd y ddeddfwriaeth sylfaenol Gydsyniad Brenhinol ym mis Mai 2024 fel Deddf Cerbydau Awtomeiddiedig. Mae gwaith paratoi ar y gweill i lansio rhaglen weithredu ar gyfer y Ddeddf, gan sefydlu mecanweithiau manwl y fframwaith rheoleiddio newydd.

### Cymrodeddu[17]

51. Ym mis Mawrth 2021, gofynnodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder i Gomisiwn y Gyfraith Cymru a Lloegr gynnal adolygiad o Ddeddf Cymrodeddu 1996. Cafodd Comisiwn y Gyfraith y dasg o benderfynu a oedd angen unrhyw welliannau i'r Ddeddf i sicrhau ei bod yn parhau i fod yn addas at y diben ac yn parhau i hyrwyddo Cymru a Lloegr fel cyrchfan flaenllaw ar gyfer cymrodeddu masnachol. Cynhaliodd Comisiwn y Gyfraith ddau ymgynghoriad a chyhoeddodd ei adroddiad terfynol ym mis Medi 2023.

52. Derbyniodd y Llywodraeth flaenorol holl argymhellion Comisiwn y Gyfraith ac er mwyn eu rhoi ar waith, cyflwynodd y Mesur Cymrodeddu i'r Senedd ym mis Tachwedd 2023.

53. Syrthiodd Mesur Cymrodeddu’r Llywodraeth flaenorol ar ddiwedd y sesiwn Seneddol flaenorol, pan alwyd Etholiad Cyffredinol 2024.

54. Fodd bynnag, wedi’r Etholiad cyflwynodd y Llywodraeth hon ei Bil Cymrodeddu ei hun i'r Senedd, gan roi effaith i ddiwygiadau Comisiwn y Gyfraith, ar 18 Gorffennaf 2024. Dechreuodd y Bil Cymrodeddu yn Nhŷ'r Arglwyddi o dan y weithdrefn Bil arferol, a chwblhaodd ei gamau Tŷ'r Arglwyddi ddydd Mercher 6 Tachwedd 2024 a

[16] https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1099178/cam-2025-realising-benefits-self-driving-vehicles-print.pdf

[17] Arbitration (LC 413) (05.09.23)

chafodd ei gyflwyno i Dŷ'r Cyffredin ar yr un dyddiad. Derbyniodd y Bil Gydsyniad Brenhinol ar 24 Chwefror 2025, a bydd y Ddeddf yn cael ei chychwyn cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

**Atafaelu Elw Troseddau[18]**

55. Yn 2018, comisiynodd y Swyddfa Gartref Gomisiwn y Gyfraith gyda phrosiect i adolygu Rhan 2 o Ddeddf Elw Troseddau 2002 (y drefn atafaelu yng Nghymru a Lloegr), ac i wneud argymhellion ar gyfer diwygio. Roedd hyn yn cynnwys asesu sut y gellid addasu'r drefn ac ystyried sut olwg fyddai ar y drefn atafaelu orau.

56. Ym mis Tachwedd 2022, ar ôl cyfnod helaeth o ymgynghori, cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith ei adroddiad. Mae'n gwneud 119 o argymhellion: cyfuniad o syniadau uchelgeisiol ar gyfer diwygio a newidiadau i'r fframwaith deddfwriaethol presennol. Penderfynodd y Llywodraeth flaenorol fwrw ymlaen â'r rhan fwyaf o argymhellion Comisiwn y Gyfraith. Cafodd y dull hwn ei lywio gan sesiynau ymgysylltu helaeth gyda rhanddeiliaid allweddol ar draws y Llywodraeth, gorfodi'r gyfraith, cymdeithas sifil, y sector breifat a'r byd academaidd. Yn ystod y trafodaethau hyn, clywodd y Llywodraeth flaenorol gan nifer o randdeiliaid y byddai bwrw ymlaen ag argymhellion penodol Comisiwn y Gyfraith ynghylch dosrannu, ailystyried ar i fyny a chydgrynhoi gorchmynion atafaelu lluosog yn creu nifer o broblemau gweithredol ac ymarferol. Cymerodd y Llywodraeth flaenorol ddull mesuredig ac yng ngoleuni'r pryderon hyn, penderfynodd wedyn beidio â bwrw ymlaen â'r argymhellion hyn ymhellach.

57. Cyhoeddwyd ymateb blaenorol y Llywodraeth i adroddiad Comisiwn y Gyfraith ar 25 Hydref 2023. Ar 14 Tachwedd 2023, cyflwynodd y Llywodraeth flaenorol y Mesur Cyfiawnder Troseddol, a oedd yn darparu ar gyfer diwygio'r drefn atafaelu ar raddfa fawr. Llywiodd argymhellion Comisiwn y Gyfraith ddrafftio'r mesurau hynny. Syrthiodd y Mesur Cyfiawnder Troseddol pan ddiddymwyd y Senedd ym mis Mai 2024. Bydd y Llywodraeth newydd yn deddfu i fwrw ymlaen â'r mesurau hyn pan fydd amser Seneddol yn caniatáu.

**Gwrth-Wyngalchu Arian[19]**

58. Yn 2017, comisiynodd y Swyddfa Gartref Gomisiwn y Gyfraith i adolygu agweddau ar y drefn gwrth-wyngalchu arian yn Rhan 7 o Ddeddf Elw Troseddau 2002 a threfn ariannu gwrthderfysgaeth debyg a gynhwysir yn Rhan 3 o Ddeddf Terfysgaeth 2000, i ystyried a oedd lle i ddiwygio'r "drefn ganiatâd". Yn 2019, cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith ei adroddiad. Mae'n gwneud 19 o argymhellion deddfwriaethol ac an-ddeddfwriaethol sy'n cwmpasu, ymhlith pethau eraill: eithriadau o'r troseddau

[18] Confiscation of the Proceeds of Crime after Conviction (LC 410) (08.11.22)

[19] Anti-money laundering (LC384) (18.06.19)

gwyngalchu arian sylweddol; defnyddio amheuaeth fel trothwy ar gyfer rhannu gwybodaeth; canllawiau statudol; a chamfanteisio ar ddata.

59. Croesawodd y Llywodraeth flaenorol argymhellion Comisiwn y Gyfraith; roedd nifer o'r argymhellion eisoes wedi symud ymlaen, rhai drwy'r cymalau deddfwriaethol yn Neddf Troseddau Economaidd a Thryloywder Corfforaethol 2023 ac eraill drwy gyflawni Rhaglen Diwygio SARs.

60. Cyhoeddwyd ymateb blaenorol y Llywodraeth i adroddiad cyfundrefn SARs Comisiwn y Gyfraith ar 12 Chwefror 2024.

### Gweithredu Dogfennau'n Electronig[20]

61. Cwblhaodd Comisiwn y Gyfraith yr adroddiad hwn ym mis Medi 2019 ar ôl adolygu'r gyfraith bresennol a'r achos dros ddiwygio llofnodion electronig a gweithredu dogfennau'n electronig.

62. Gwneir trafodion fwyfwy drwy ddulliau electronig ac edrychodd y prosiect ar y gyfraith sy'n sail i'r trafodion hynny ac a yw wedi cadw i fyny â thechnoleg wrth roi sicrwydd i fusnesau bod llofnodion electronig a gweithrediadau digidol eraill o ddogfennau yn cynnig contractau a chytundebau sy'n rhwymo'n gyfreithiol.

63. Daeth Comisiwn y Gyfraith i'r casgliad bod llofnod electronig yn gallu cael ei ddefnyddio yn ôl y gyfraith i gyflawni dogfen (gan gynnwys gweithred) ar yr amod bod (i) y person sy'n llofnodi'r ddogfen yn bwriadu dilysu'r ddogfen a (ii) bod unrhyw ffurfioldebau sy'n ymwneud â chyflawni'r ddogfen honno wedi'u bodloni.

64. Ymatebodd yr Arglwydd Ganghellor mewn Datganiad Gweinidogol Ysgrifenedig ym mis Mawrth 2020, gan groesawu adroddiad Comisiwn y Gyfraith a chymeradwyo'r casgliadau yr oedd wedi'u cyrraedd. Cytunodd y Llywodraeth flaenorol y gellid defnyddio llofnodion electronig yn hyderus ar gyfer trafodion busnes cyffredin, a bod cyflwr presennol y gyfraith yn golygu nad oedd angen deddfwriaeth ychwanegol benodol.

65. Cytunodd y Llywodraeth flaenorol hefyd â'r argymhelliad i sefydlu Grŵp Gwaith Diwydiant o arbenigwyr i roi ystyriaeth bellach i godi safonau a pharatoi arferion gorau yn y maes hwn. Cynullodd y Llywodraeth flaenorol y grŵp hwnnw a ddechreuodd ei waith yn 2021. Cyhoeddodd y grŵp adroddiad interim ar 1 Chwefror 2022 ac adroddiad terfynol ar 1 Chwefror 2023. Cytunodd y Llywodraeth flaenorol hefyd â'r argymhelliad y dylai Comisiwn y Gyfraith gynnal adolygiad o gyfraith gweithredoedd pan fyddai adnoddau a blaenoriaethau eraill yn caniatáu hynny.

---

20 Electronic Execution of Documents (LC386) (04.09.2019)

### Anghymhwyster i bledio[21]

66. Mae'r gyfraith sy'n ymwneud ag anghymhwyster i bledio yn mynd i'r afael â'r hyn a ddylai ddigwydd mewn llysoedd troseddol pan nad oes gan ddiffynnydd ddigon o allu i gymryd rhan yn effeithiol yn ei achos llys, gan gynnwys deall y cyhuddiadau yn ei erbyn a phenderfynu sut i bledio. Gall diffynyddion fod yn anghymwys i bledio am amrywiaeth o resymau, megis cyflwr iechyd meddwl, anabledd dysgu, neu gyflwr niwroamrywiol arall. Nod y gyfraith yw cydbwyso hawliau'r diffynnydd agored i niwed â buddiannau'r rhai yr effeithir arnynt gan drosedd honedig, a'r angen i amddiffyn y cyhoedd. Fodd bynnag, mae'r gyfraith bresennol yn y maes hwn yn cael ei chymhwyso'n anghyson ac mae wedi dyddio, gan fethu ag ystyried dealltwriaeth feddygol fodern o allu.

67. Ar ôl ymgynghoriad eang a gynhaliwyd yn ystod gaeaf 2010/11,[22] cyhoeddodd y Comisiwn ddadansoddiad o'r ymatebion[23] a phapur materion yn 2013[24] a'u hadroddiad terfynol a'u Bil drafft ym mis Ionawr 2016.[25]

68. Cyhoeddwyd ymateb llawn i adroddiad Comisiwn y Gyfraith ym mis Hydref 2023, gyda mwyafrif argymhellion Comisiwn y Gyfraith yn cael eu derbyn.

### Gwarantau Chwilio[26]

69. Ym mis Hydref 2020, yn dilyn comisiwn gan y Swyddfa Gartref yn 2017, cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith adolygiad o ddeddfwriaeth gwarantau chwilio. Nod yr Adroddiad oedd symleiddio'r ddeddfwriaeth bresennol, gan gynnwys Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984, i'w gwneud yn fwy cadarn, tryloyw a hygyrch, gan symleiddio'r broses gwarantau chwilio a'r pwerau cysylltiedig, megis y rhai sy'n ofynnol i gael mynediad at ddata electronig a'i gael.

70. Nododd Adroddiad Comisiwn y Gyfraith argymhellion i'r Llywodraeth eu hystyried, gan gynnwys newidiadau cynhwysfawr i'r drefn gwarantau chwilio.

71. Gwnaed newidiadau sylweddol mewn ymateb i'r argymhellion a gyflwynwyd yn yr Adroddiad, gan gynnwys ceisiadau gwarantau electronig symlach a chanllawiau wedi'u hadnewyddu.

---

21 Unfitness to Plead (LC364) (31.10.16)

22 (2010) LCCP197

23 http://www.lawcom.gov.uk/project/unfitness-to-plead/

24 http://www.lawcom.gov.uk/project/unfitness-to-plead/

25 (2016) LC364 (two volumes)

26 Search Warrants (LC 396) (07.10.20)

72. Bydd y Llywodraeth hon yn cadw deddfwriaeth gwarantau chwilio dan adolygiad i sicrhau bod y system yn gweithio'n effeithiol.

**Rhagdaliadau Defnyddwyr ar gyfer Ansolfedd Manwerthwyr[27]**

73. Cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith eu hadroddiad ar y prosiect hwn ym mis Gorffennaf 2016, a ystyriodd a oes angen mwy o amddiffyniad i ddefnyddwyr sy'n colli blaendaliadau neu dalebau rhodd pan fydd manwerthwyr neu ddarparwyr gwasanaethau eraill yn mynd yn fethdalwr.

74. Pan fydd manwerthwr yn mynd yn fethdalwr, mae'r gyfraith yn gosod hierarchaeth gaeth o gredydwyr i'w talu allan o unrhyw asedau sy'n weddill. Mae defnyddwyr, sy'n cael eu dosbarthu fel credydwyr heb eu sicrhau, yn agos iawn at waelod y rhestr ac yn aml nid ydynt yn derbyn dim. Mewn rhai achosion, gall y gweinyddwr benderfynu anrhydeddu rhagdaliadau a thalebau rhodd defnyddwyr, er nad oes unrhyw rwymedigaeth arnynt i wneud hynny. Yn aml nid yw defnyddwyr yn ymwybodol o'r sefyllfa gyfreithiol, ac mewn rhai achosion, mae gwybodaeth wrthgyferbyniol gan weinyddwyr yn drysu'r sefyllfa ymhellach.

75. Cyhoeddwyd ymateb y Llywodraeth flaenorol i'w hadroddiad ar 27 Rhagfyr 2018 a derbyniodd nifer o argymhellion, gan gynnwys y canlynol:
    - Cyflwyno pŵer cyffredinol i'r Llywodraeth fynnu amddiffyniad rhagdaliad mewn sectorau sy'n peri risg benodol i ddefnyddwyr.
    - Rheoleiddio cynlluniau cynilo’r Nadolig a chynlluniau cynilo tebyg, sy’n peri risg benodol i ddefnyddwyr agored i niwed.
    - Gwneud newidiadau i'r rheolau ynghylch pryd y mae defnyddwyr yn caffael perchnogaeth ar nwyddau (gweler isod)

76. Cafodd argymhelliad pellach o roi mwy o wybodaeth i ddefnyddwyr am gael ad-daliad drwy eu cyhoeddwr cerdyn debyd neu gredyd ei weithredu drwy gyngor i ymarferwyr ansolfedd yn haf 2017; ac ystyriwyd un pellach ar newidiadau i hierarchaeth ansolfedd, ond ni fydd yn mynd rhagddo.

77. Cyhoeddodd y Llywodraeth flaenorol yr ymgynghoriad “Diwygio Cystadleuaeth a Pholisi Defnyddwyr” ym mis Gorffennaf 2021. Gofynnodd yr ymgynghoriad a oedd rheoleiddio i amddiffyn defnyddwyr cynlluniau cynilo’r Nadolig a chynlluniau cynilo tebyg yn dal yn angenrheidiol, a pha sectorau eraill oedd yn peri risgiau penodol i ddefnyddwyr ac felly y dylid eu hamddiffyn hefyd. Roedd yr ymatebion i’r ymgynghoriad yn gadarnhaol ynghylch yr angen i amddiffyn defnyddwyr cynlluniau cynilo’r Nadolig a chynlluniau cynilo tebyg ond nid oeddent yn bendant ynghylch pa sectorau eraill oedd angen eu hamddiffyn.

[27] Consumer Prepayments on Retailer Insolvency (LC368) (14.07.2016)

78. Cyhoeddodd y Llywodraeth flaenorol y Bil Cystadleuaeth a Defnyddwyr y Farchnad Ddigidol (DMCC) ym mis Ebrill 2023, a gafodd Gydsyniad Brenhinol ar 24 Mai 2024. Mae'r Ddeddf yn cynnwys mesurau a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i fusnesau sy'n gweithredu "Cynlluniau Cynilo i Ddefnyddwyr" (megis clybiau cynilo Nadolig) amddiffyn arian defnyddwyr trwy yswiriant neu drefniadau ymddiriedolaeth. Ni fydd y darpariaethau hyn yn cael eu gweithredu cyn mis Ebrill 2025, ac mae'r amserlen hon yn amodol ar ymgysylltu parhaus â'r diwydiant.

### Asedau Digidol[28]

79. Cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith adroddiad ar 28 Mehefin 2023 yn gwneud pedwar argymhelliad i'r Llywodraeth ar sut i gryfhau ymhellach allu cyfraith Cymru a Lloegr i gynnwys asedau digidol. Comisiynodd y Llywodraeth flaenorol y gwaith yn 2020 i nodi unrhyw rwystrau i gydnabod asedau digidol fel eiddo o dan gyfraith breifat Cymru a Lloegr, ac argymell atebion.

80. Mae'r Llywodraeth newydd bellach yn cyflwyno'r bil drafft, fel y'i cynigiwyd gan Gomisiwn y Gyfraith, drwy'r Senedd gan ddefnyddio proses weithdrefn arbennig Comisiwn y Gyfraith. Mae hyn yn golygu ei bod yn gweithredu'r argymhelliad a wnaed gan Gomisiwn y Gyfraith i ddeddfu.

81. Argymhellodd yr adroddiad hefyd sefydlu grŵp arbenigol i ddarparu canllawiau anrhwymol ar reolaeth gyfreithiol a thechnegol asedau digidol. Gofynnodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder i Dasglu Awdurdodaeth y DU, grŵp arbenigol dan gadeiryddiaeth Meistr y Rholiau, i fwrw ymlaen â'r gwaith hwn.

82. Gwnaed dau argymhelliad arall yn yr adroddiad sy'n cael eu hadolygu gan Drysorlys EF.

83. Cafwyd ymateb llawn i'r adroddiad drwy ddatganiad ysgrifenedig gan y gweinidog ar 11 Medi.

## (ii) Argymhellion sy'n aros am benderfyniad y Llywodraeth ar eu gweithredu

### Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus[29]

84. Mae adroddiad Comisiwn y Gyfraith yn 2011 yn canolbwyntio ar bum ombwdsmon; y Comisiynydd Seneddol; Comisiynydd y Gwasanaeth Iechyd; Ombwdsmon

[28] Digital Assets (LC 412) (27.06.23)

[29] Public Service Ombudsman (LC 329) (14.07.11)

Llywodraeth Leol; Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru; ac Ombwdsmon Tai.

85. Mae'r adroddiad yn gwneud cyfres o argymhellion gyda'r nod o wella mynediad at ombwdsmyn gwasanaethau cyhoeddus, a'u heffeithiolrwydd.

86. Bydd y Llywodraeth hon yn ystyried yr achos dros ddiwygio ombwdsmon ochr yn ochr â blaenoriaethau polisi a deddfwriaethol eraill.

### Hawliau i Olau[30]

87. Hawl i olau yw hawddfraint sy'n rhoi'r hawl i dirfeddiannwr dderbyn golau drwy agoriadau diffiniedig mewn adeiladau ar ei dir. Ni all perchennog tir sydd wedi'i feichio gan yr hawl ymyrryd yn sylweddol â hi – er enghraifft drwy godi adeilad mewn ffordd sy'n rhwystro'r golau – heb ganiatâd y perchennog sy'n elwa. Gall yr hawl alluogi tirfeddianwyr i atal adeiladu a fyddai'n ymyrryd â'u hawliau neu, mewn rhai amgylchiadau, i gael adeilad wedi'i ddymchwel.

88. Cynhaliodd Comisiwn y Gyfraith brosiect ar hawliau i olau oherwydd pryderon ynghylch diffyg eglurder a sicrwydd yn y gyfraith bresennol, ac oherwydd y potensial i anghydfodau ynghylch hawliau i olau fod yn brif achos oedi a chost yn ystod datblygu tir. Cyhoeddwyd yr adroddiad terfynol ym mis Rhagfyr 2014.

89. Roedd y Llywodraeth flaenorol wedi bod yn ystyried yr adroddiad yn ofalus. Dywedodd nad oedd unrhyw gynlluniau uniongyrchol i weithredu'r argymhellion o ganlyniad i flaenoriaethau deddfwriaethol eraill, ond y byddai'r sefyllfa'n cael ei hadolygu'n barhaus.

### Eiddo, Anghenion a Chytundebau Priodasol [31]

90. Cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith ei adroddiad terfynol ar Eiddo, Anghenion a Chytundebau Priodasol ym mis Chwefror 2014. Mae'r adroddiad yn gwneud argymhellion i egluro cyfraith anghenion ariannol ar ysgariad neu ddiddymu partneriaeth sifil a fyddai'n sicrhau bod y gyfraith yn cael ei chymhwyso'n gyson gan y llysoedd ac yn atgyfnerthu arfer gorau barnwrol. Yn ogystal, mae'n argymell y dylid gwneud gwaith i asesu a ellid llunio fformiwla fel cymorth i gyfrifo canlyniadau ariannol, a fyddai'n gofyn am gasglu data empirig. Yn olaf, mae'n argymell cyflwyno cytundebau priodasol cymwys yng Nghymru a Lloegr a fyddai'n gontractau gorfodadwy, gyda nifer o ddarpariaethau a mesurau diogelwch cysylltiedig, gan alluogi cyplau i wneud trefniadau rhwymol ar gyfer canlyniadau ariannol ysgariad neu ddiddymiad.

---

30 Rights to Light (LC356) (04.12.14)

31 Matrimonial Property, Needs and Agreements (LC 343) (27.02.2014)

91. Derbyniodd y Llywodraeth flaenorol yr argymhelliad ar gyfer canllawiau a chymerodd gamau gweithredu arnynt. Datblygodd y Cyngor Cyfiawnder Teulu ganllawiau ariannol ar gyfer cyplau sy'n gwahanu ac ymgyfreithwyr heb gynrychiolaeth. Mae tudalen we'r Cyngor Cyfiawnder Teulu yn darparu canllawiau dyddiedig Ebrill 2016. Mae hefyd yn cyhoeddi canllawiau wedi'u hanelu at y farnwriaeth ac ymarferwyr, y cyhoeddwyd yr ail argraffiad ohonynt ym mis Ebrill 2018. Mae'r elusen gyfreithiol, AdviceNow, hefyd yn cyhoeddi canllawiau ar y pwnc ar gyfer ymgyfreithwyr drostynt eu hunain, gyda chyllid gan y Cyngor Cyfiawnder Teulu, gyda'r rhifyn diweddaraf wedi'i gyhoeddi ym mis Mawrth 2022.

92. Bu’r Llywodraeth flaenorol hefyd yn gweithio gyda Grŵp Gwaith Casglu Data (yr oedd aelodau ohono’n cynnwys Comisiwn y Gyfraith, y farnwriaeth, Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF ac academyddion) i gymryd camau i gasglu data mewn perthynas ag achosion rhwymedïau ariannol. Bu’r Llywodraeth flaenorol yn gweithio gyda’r Grŵp Gwaith i greu fersiwn ddiwygiedig o’r ffurflen D81 (datganiad o wybodaeth am amgylchiadau ariannol partïon a ddefnyddir i gefnogi ceisiadau am orchymyn cydsynio mewn achosion rhwymedïau ariannol ar ysgariad), a gyhoeddwyd yn 2022. Byddai’r gwelliannau i’r ffurflen D81 yn ei galluogi i gael ei defnyddio’n fwy effeithiol mewn unrhyw ymarfer casglu data yn y dyfodol.

93. Yn fwy cyffredinol, yn ystod taith Deddf Ysgariad, Diddymu ac Ymwahanu 2020 drwy'r Senedd, ymrwymodd y Llywodraeth flaenorol i gynnal adolygiad o gyfraith rhwymedïau ariannol ar ysgariad. Gwnaed cyhoeddiad ar 4 Ebrill 2023 y byddai Comisiwn y Gyfraith yn cynnal yr adolygiad hwn. Fel rhan o'i adolygiad, ystyriodd Comisiwn y Gyfraith a oes angen adolygu materion eiddo priodasol, anghenion a chytundebau y tu hwnt i'w argymhellion yn ei adroddiad yn 2014. Roedd hyn yn angenrheidiol oherwydd bod adroddiad 2014 Comisiwn y Gyfraith yn ystyried materion ar wahân o fewn cyfraith darpariaeth ariannol ar ysgariad, yn hytrach na'r gyfraith sylfaenol sy'n llywodraethu rhwymedïau ariannol. Bydd y Llywodraeth hon yn ystyried yr argymhellion mewn perthynas â chytundebau priodasol yng ngoleuni canfyddiadau Adroddiad Cwmpasu Comisiwn y Gyfraith ar Rwymedïau Ariannol ar Ysgariad a Diddymu, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2024.

**Rhwymedïau Ariannol a Hawliau Etifeddiaeth i Gyd-breswylwyr[32]**

94. Cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith ei adroddiad “Cydfyw: Canlyniadau Ariannol Chwalfa Perthynas” ym mis Gorffennaf 2007. Argymhellodd yr adroddiad hwn greu cynllun statudol sy’n rhoi rhwymedïau ariannol i bartneriaid cydfyw cymwys yn erbyn ei gilydd ar ôl i berthynas chwalu.

95. Roedd adroddiad Comisiwn y Gyfraith “Hawliadau Heb Ewyllys a Darpariaeth Deuluol ar Farwolaeth” a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2011, hefyd yn cynnwys

[32] Cohabitation: The Financial Consequences of Relationship Breakdown (LC 307) (03.07.2007)

argymhellion yn ymwneud â phartneriaid sy’n cyd-fyw. Yn benodol, argymhellodd yr adroddiad hwnnw roi’r un hawl i gyd-breswylwyr cymwys ag sydd gan briod neu bartner sifil ar farwolaeth heb ewyllys a rhoi mwy o hawliau i bartneriaid sy’n cyd-fyw o dan y Ddeddf Etifeddiaeth (Darpariaeth ar gyfer Teulu a Dibynyddion) 1975.

96. Cyhoeddodd y Llywodraeth flaenorol ym mis Medi 2011 nad oedd yn bwriadu bwrw ymlaen â'r argymhellion yn adroddiad 2007 Comisiwn y Gyfraith yn y Senedd honno (2010–2015) oherwydd diwygiadau mawr a oedd eisoes wedi'u cynllunio ar gyfer y system cyfiawnder teuluol, a gyflawnwyd yn 2014. Ym mis Mawrth 2013, gwnaeth y Llywodraeth flaenorol gyhoeddiad tebyg ynghylch yr argymhellion yn ymwneud â chyd-fyw yn adroddiad 2011.

97. Gwnaeth y Llywodraeth hon ymrwymiad yn ei maniffesto yn 2024 i ‘gryfhau’r hawliau a’r amddiffyniadau sydd ar gael i fenywod mewn cyplau sy’n cyd-fyw’ ac mae wedi nodi, fel y nodir yn adroddiad 2007, fod yr amddiffyniadau presennol ar gyfer cyplau sy’n cyd-fyw yn gyfyngedig iawn. Mae’r Llywodraeth hon yn bwriadu nodi’r camau nesaf ar yr ymrwymiad hwn maes o law.

**Diwygio'r Gyfraith ar Briodasau[33]**

98. Cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith adroddiad ar 19 Gorffennaf 2022 yn nodi 57 o argymhellion ar ddiwygiadau i'r gyfraith ar briodasau, yn enwedig sut a ble y gellir cynnal y rhain. Mae'r Llywodraeth hon yn ystyried manylion yr adroddiad hwn a bydd yn nodi ei hymateb i'r argymhellion maes o law.

**Diwygio'r Gyfraith ar Dacsis a Gwasanaethau Hurio Preifat[34]**

99. Mae'r gyfraith sy'n llywodraethu sut mae masnachau tacsis a cherbydau hurio preifat (PHV) yn gweithredu yng Nghymru a Lloegr yn hen, yn anghyson ac yn seiliedig ar sut roedd teithwyr yn draddodiadol yn defnyddio gwasanaethau cyn dyfodiad y rhyngrwyd ac apiau. Cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith ei adroddiad ar 23 Mai 2014, gan argymell diwygiadau a fyddai'n gwneud y gyfraith yn gliriach i'r rhai sy'n gweithio yn y masnachau tacsis a hurio preifat a'u teithwyr.

100. Cydnabu adroddiad y Comisiwn werth y system ddwy haen o gerbydau hurio preifat – y mae'n rhaid eu harchebu ymlaen llaw drwy weithredwr trwyddedig a thacsis – a all hefyd ddefnyddio rhengoedd neu fod ar gael i'w llogi ar unwaith. Mae'n gwneud argymhellion i gadw ac atgyfnerthu'r gwahaniaeth. Roedd diogelwch teithwyr yn flaenoriaeth yng ngwaith diwygiadau'r Comisiwn. Argymhellodd y dylid gosod safonau'n genedlaethol ar gyfer diogelwch y cyhoedd, hygyrchedd ac effaith amgylcheddol, fel y gallai teithwyr tacsis a cherbydau preifat preifat ddisgwyl lefelau

[33] Celebrating Marriage: A New Weddings Law (LC 408) (18.07.2022)

[34] Taxis and Private Hire Services (LC 347) (23.05.2014)

cyson o ddiogelwch ac ansawdd lle bynnag y maent yn teithio. Gweithredwyd dau o argymhellion Comisiwn y Gyfraith drwy Ddeddf Dadreoleiddio 2015.

101. Ers adroddiad Comisiwn y Gyfraith, gwnaeth Deddf Cymru 2017 ddarpariaeth ar gyfer trosglwyddo cyfrifoldeb dros bolisi tacsis a cherbydau hurio preifat i Gynulliad Cenedlaethol Cymru (a newidiodd ei enw i Senedd Cymru yn 2020); yn dilyn y trosglwyddiad hwn yn 2018 mae hwn bellach yn faes polisi datganoledig ym mhob cenedl yn y DU.

102. Sefydlwyd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Dacsis a Cherbydau Hurio Preifat, dan gadeiryddiaeth annibynnol, yn 2017 i ystyried rheoleiddio'r sector o dan y ddeddfwriaeth bresennol, ei effeithiolrwydd ac a yw'r offer sydd ar gael ar hyn o bryd yn cael eu defnyddio i'r eithaf. Cyflwynodd cadeirydd y grŵp ei adroddiad ym mis Gorffennaf 2018, cyhoeddodd yr Adran Drafnidiaeth (DfT) ymateb yn 2019.

103. Yn 2020, cyhoeddodd yr Adran Drafnidiaeth ganllawiau statudol a oedd yn nodi ystod o ofynion a phrosesau y dylai pob awdurdod trwyddedu eu dilyn i amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed. Roedd y pŵer deddfwriaethol y cyhoeddwyd y canllawiau oddi tano yn canolbwyntio ar gamau gweithredu i amddiffyn y rhai mwyaf agored i niwed yn y gymdeithas, ond bydd y mesurau diogelu cadarn a gynhwysir yn y canllawiau o fudd i bob teithiwr.

104. Mae Deddf Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat (Diogelu a Diogelwch Ffyrdd) 2022 a Deddf Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat (Personau Anabl) 2022 wedi gwella rheoleiddio'r sector ac wedi cynyddu diogelwch teithwyr anabl.

105. Cyhoeddodd yr Adran Drafnidiaeth Ganllawiau Arfer Gorau wedi'u diweddaru ar gyfer Awdurdodau Trwyddedu Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat yn Lloegr yn 2023. Mae'r ddogfen yn cwmpasu ystod eang o faterion trwyddedu nad oeddent o fewn cwmpas y canllawiau statudol.

106. Mae'r Llywodraeth newydd yn ymwybodol o'r pryderon ynghylch y fframwaith deddfwriaethol a rheoleiddiol presennol ac mae wedi ymrwymo i archwilio sut i'w wella.

### Troseddau Casineb[35]

107. Cyfeiriwyd y prosiect at Gomisiwn y Gyfraith gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Cyhoeddodd y Comisiwn adroddiad ar 28 Mai 2014. Argymhellodd yr adroddiad hwn:
   (a) i’r Cyngor Dedfrydu gynhyrchu canllawiau ar y dull o ddedfrydu troseddau sy'n seiliedig ar elyniaeth mewn achosion troseddau casineb

[35] Hate Crime: Should the Current Offences be Extended (LC 348) (28.05.14)

(b) bob tro y cymhwysir y darpariaethau dedfrydu estynedig o dan adran 145 a 146 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003, dylid cofnodi hyn ar gofnod Cyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu (PNC) y troseddwr.

(c) y dylid cynnal adolygiad llawn o droseddau gwaethygedig, a dylid edrych ar y system dedfrydu estynedig i weld a ddylid ei chadw yn ei ffurf bresennol neu ei diwygio. Os bydd y Llywodraeth yn dewis peidio â chynnal adolygiad ehangach, dylid ymestyn y troseddau gwaethygedig i anabledd, cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth drawsryweddol.

(d) peidio ag ymestyn y drefn ysgogi casineb ar sail anabledd neu hunaniaeth drawsryweddol. Anaml y byddai troseddau newydd o ysgogi casineb ar sail anabledd a hunaniaeth drawsryweddol yn cael eu herlyn, os o gwbl, ac felly byddai eu heffaith yn ddibwys.

108. Ni wnaeth y Llywodraeth flaenorol ymateb yn ffurfiol i'r adroddiad hwn ond fe dderbyniodd argymhelliad Comisiwn y Gyfraith i gynnal adolygiad llawn. O ganlyniad, ym mis Hydref 2018, cafodd Comisiwn y Gyfraith y dasg gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Swyddfa Gartref o adolygu digonolrwydd a chydraddoldeb yr amddiffyniad a gynigir gan y gyfraith sy'n ymwneud â throseddau casineb, ac i wneud argymhellion ar gyfer ei ddiwygio.

109. Cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith ei adroddiad terfynol ar droseddau casineb ar 7 Rhagfyr 2021,[36] gan wneud nifer o argymhellion ar gyfer diwygio'r cyfreithiau troseddu yng Nghymru a Lloegr.

110. Cyhoeddodd y Llywodraeth flaenorol ymateb i Argymhelliad 8 o adroddiad Comisiwn y Gyfraith yn 2023, gan dderbyn ei hargymhelliad na ddylid ychwanegu rhyw na rhywedd fel nodwedd warchodedig at ddibenion troseddau gwaethygedig a dedfrydu estynedig. Ni ymatebodd y Llywodraeth flaenorol i'r 33 argymhelliad sy'n weddill a wnaed gan Gomisiwn y Gyfraith.

111. Mae'r Llywodraeth hon wrthi'n ystyried pob un o'r 34 argymhelliad a wnaed gan Gomisiwn y Gyfraith.

### Symleiddio'r Gyfraith Droseddol: Niwsans Cyhoeddus a Sarhau Gwedduster Cyhoeddus[37]

112. Cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith ei adroddiad terfynol ar Niwsans Cyhoeddus a Sarhau Gwedduster Cyhoeddus ar 25 Mehefin 2015. Mae'r argymhellion ar Niwsans Cyhoeddus bellach wedi'u cwblhau trwy Ddeddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a Llysoedd 2022.

---

[36] Hate Crime Laws: Final Report (LC 402) (7.12.2021)

[37] Simplification of the Criminal Law: Public Nuisance and Outraging Public Decency (LC 358) (25.06.2015)

113. Mae sarhau gwedduster cyhoeddus yn drosedd sy'n troseddoli ymddygiad neu arddangosfeydd sy'n anllad, yn anweddus neu'n ffiaidd ac sy'n digwydd yn gyhoeddus. Yn unol â'r model a ffefrir gan ymgyngoreion, mae'r adroddiad yn argymell cadw'r drosedd a'i hail-ddatgan mewn statud yn bennaf yn ei ffurf bresennol ond gan ychwanegu elfen feddyliol o fwriad neu ddi-hidrwydd.

114. Mae'r prosiect hwn yn rhan o gyfres fach o brosiectau symleiddio a gynigiwyd yn wreiddiol yn Negfed Raglen Diwygio'r Gyfraith y Comisiwn. Nod y gyfres hon o brosiectau yw egluro strwythur a moderneiddio iaith cyfraith droseddol a'i gwneud yn fwy cyson a hygyrch. Mae'r Llywodraeth hon wedi ystyried argymhellion y Comisiwn yn ofalus ond nid yw wedi cyhoeddi ymateb ffurfiol na chadarnhau'r camau nesaf eto.

**Symleiddio'r Gyfraith Droseddol: Herwgipio a Throseddau Cysylltiedig**[38]

115. Cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith ei adroddiad terfynol ar herwgipio a throseddau cysylltiedig ar 20 Tachwedd 2014. Argymhellodd yr adroddiad greu dwy drosedd statudol ar wahân i ddisodli'r rhai cyfraith gyffredin presennol, sef:
    - bod camgarcharu yn cael ei ddisodli â throsedd statudol newydd o gadw anghyfreithlon (label y mae Comisiwn y Gyfraith yn credu sy'n dal natur y drosedd yn well). Byddai elfennau'r drosedd newydd yn dilyn y gyfraith gyffredin bresennol yn agos; a
    - creu trosedd herwgipio statudol newydd. Byddai hyn ychydig yn fwy cyfyng ac yn fwy penodol na'r drosedd gyfraith gyffredin bresennol, a byddai ganddo berthynas gliriach â'r drosedd o gadw anghyfreithlon.

116. Argymhellodd yr adroddiad hefyd newidiadau i'r troseddau o dan adrannau 1 a 2 o Ddeddf Herwgipio Plant 1984. Mae'r rhain yn ceisio:
    - cynyddu'r dedfrydau uchaf ar gyfer y troseddau hyn o 7 i 14 mlynedd o garchar, er mwyn osgoi'r hyn a welwyd fel anghysondeb annymunol rhwng yr achosion mwyaf difrifol o'r troseddau hyn a throseddau herwgipio o lefel gymharol o ddifrifoldeb, a;
    - ehangu'r drosedd o dan adran 1 i gwmpasu achosion o gadw plentyn dramor yn anghyfreithlon, gan dorri'r caniatâd a roddwyd gan riant arall (neu berson cysylltiedig arall) neu'r llys. Byddai'r estyniad hwn yn cau bwlch yn y gyfraith a amlygwyd yn achos *R (Nicolaou) v Redbridge Magistrates' Court.*

117. Nid yw'r Llywodraeth hon wedi ymateb yn ffurfiol eto i'r argymhellion a nodir yn yr adroddiad.

38 Simplification of the Criminal Law: Kidnapping and Related Offences (LC 355) (20.11.2014)

### Troseddau yn Erbyn y Person – Moderneiddio'r Gyfraith ar Drais [39]

118. Cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith ei adroddiad "Diwygio troseddau yn erbyn y person" ar 3 Tachwedd 2015, yn dilyn ymarfer cwmpasu yr oedd y Llywodraeth flaenorol wedi gofyn i'r Comisiwn ei gynnal fel rhan o'i 11eg Rhaglen ddiwygio. Mae'r adroddiad hefyd yn tynnu ar waith cynharach a wnaeth Comisiwn y Gyfraith ac eraill yn y maes hwn ers y 1980au, a arweiniodd at Fil drafft ym 1998 i ddiwygio Deddf Troseddau yn Erbyn y Person 1861. Ni chafodd y Bil drafft ei fwrw ymlaen erioed oherwydd blaenoriaethau eraill y Llywodraeth ar y pryd.

119. Mae'r adroddiad yn cwmpasu'r rhan fwyaf o'r troseddau sy'n bodoli yn Neddf 1861, troseddau cyfraith gyffredin ymosod a churo a throsedd ymosod ar gwnstabl (adran 89(1) Deddf yr Heddlu 1996). Cafodd yr adroddiad ei lywio gan yr ymgynghoriad manwl a gynhaliwyd gan y Comisiwn rhwng Tachwedd 2014 a Chwefror 2015 ac mae'n argymell bod angen deddfwriaeth wedi'i diweddaru i fynd i'r afael â throseddau treisgar yn fwy effeithiol a gwneud gwell defnydd o amser y llys.

120. Mae'r argymhellion sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad yn cynnwys:
    - disodli'r troseddau o fewn cwmpas Deddf Troseddau yn Erbyn y Person 1861 â statud modern, sy'n cynnwys system glir o droseddau anafu;
    - creu trosedd newydd o "ymosodiad gwaethygedig" i bontio'r bwlch rhwng ymosodiad cyffredin a'r drosedd fwy difrifol o ymosodiad sy'n achosi niwed corfforol gwirioneddol (ABH), fel trosedd ddiannod gyda dedfryd uchaf o 12 mis. Amcangyfrif gorau'r Comisiwn o'r arbedion gros o'r argymhelliad hwn ar ei ben ei hun yw tua £12.47 miliwn y flwyddyn; a
    - ymestyn y drosedd o 'fygythiadau i ladd' i gynnwys 'bygythiadau i achosi anaf difrifol' a 'bygythiadau i dreisio'.[40]

121. Nid yw'r Llywodraeth hon wedi ymateb yn ffurfiol eto i'r argymhellion a nodir yn yr adroddiad.

### Dirmyg Llys (2): Adrodd ar Faterion Llys[41]

122. Cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith eu hadroddiad gydag argymhellion ar 26 Mawrth 2014. Roedd yr argymhellion yn cynnwys:

---

[39] Offences against the person – modernising the law on violence (LC 361) (03.11.2015)

[40] The Law Commission also recommended an offence of sending a communication threatening to cause serious harm, in their report on Modernising Communications Offences. This recommendation was implemented in s 181 of the Online Safety Act 2024, which criminalises instances where a person sends a message conveying a threat of death, serious injury, rape, assault by penetration, or serious financial loss, and intends that (or is reckless as to whether) someone encountering the message will fear the threat will be carried out.

[41] Contempt of Court (2): Court Reporting (LC344) (25.03.2014)

- Cyflwyno cronfa ddata sydd ar gael i'r cyhoedd ar y rhyngrwyd yn rhestru'r gwrandawiadau llys lle mae cyfyngiadau ar waith ar hyn o bryd.
- Creu cronfa ddata gyfyngedig fwy helaeth lle gallai defnyddwyr cofrestredig, am dâl, ddarganfod manylion y cyfyngiad adrodd a chofrestru ar gyfer rhybuddion e-bost awtomataidd am orchmynion newydd.

123. Croesawodd y Llywodraeth flaenorol yr argymhellion hyn a phenderfynodd y byddai'n ystyried sut y gellid bwrw ymlaen â chronfa ddata cyfyngiadau adrodd ar-lein wrth i dechnoleg bresennol gael ei disodli a'i diweddaru fel rhan o Raglen Ddiwygio ehangach GLlTEF.

124. Ym mis Gorffennaf 2022, lansiodd GLlTEF gam cyntaf ei wasanaeth Gwrandawiadau Llys a Thribiwnlys (CaTH) newydd ar GOV.UK, fel rhan o'i Raglen Ddiwygio. Bydd y gwasanaeth ar-lein newydd hwn yn symleiddio ac yn llyfnhau sut mae'r cyfryngau a'r cyhoedd yn dod o hyd i wybodaeth am wrandawiadau llys a thribiwnlys sydd ar ddod, trwy gyhoeddi'r holl restrau ledled Cymru a Lloegr ar-lein, mewn un lle. Gall unrhyw un gael mynediad at y gwasanaeth newydd hwn yn rhad ac am ddim, gyda defnyddwyr proffesiynol, gan gynnwys aelodau achrededig o'r cyfryngau, yn gallu gweld rhestrau nad ydynt ar gael i'r cyhoedd (a elwir yn 'rhestr gyfryngau'), gan gynnwys gwybodaeth ychwanegol fel cyfeiriad y diffynnydd a chod y drosedd. Mae'r tîm Gwasanaeth Cyhoeddi a Gwybodaeth yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid i nodi gwelliannau i'r offeryn CaTH i ddarparu gwell gwybodaeth am gyfyngiadau adrodd.

125. Mae rhestr y wasg ar gyfer y Weithdrefn Ynad Sengl ar gael i'w gweld ar-lein gan aelodau achrededig o'r cyfryngau sy'n mewngofnodi i ran ddilys o wasanaeth CaTH, neu drwy e-bost tanysgrifio. Bydd rhestrau gwrandawiadau sifil a theuluol yn dechrau cael eu cyhoeddi ar CaTH yn y ffordd hon yn ystod 2024.

126. Ar 30 Ebrill 2024, cyhoeddwyd bod yr Arglwyddes Brif Ustus wedi creu Bwrdd Tryloywder a Chyfiawnder Agored newydd. Bydd y Bwrdd newydd yn cael ei gadeirio gan Mr Ustus Nicklin a bydd yn arwain a chydlynu hyrwyddo tryloywder a chyfiawnder agored ar draws llysoedd a thribiwnlysoedd Cymru a Lloegr. Tasg gyntaf y bwrdd fydd ymgysylltu'n eang wrth osod amcanion allweddol i arwain ei waith. Wedi hynny, ac mewn partneriaeth â GLlTEF a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, bydd y bwrdd yn cefnogi ac yn cydlynu rhaglen o newidiadau i hyrwyddo tryloywder a chyfiawnder agored. Bydd y bwrdd yn sefydlu pwyllgor rhanddeiliaid i gynorthwyo yn y gwaith hwn.

### Awdurdodaeth yr Uchel Lys mewn perthynas ag Achosion Troseddol[42]

127. Cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith adroddiad a bil drafft ar 27 Gorffennaf 2010 a bil drafft yn gwneud argymhellion yn egluro[43] y cyfyngiadau ar argaeledd adolygiad barnwrol o benderfyniadau mewn treial ar gyhuddiad ac yn cynnig diwygiadau i'r broses apelio. Ym mis Gorffennaf 2022, comisiynodd y Llywodraeth flaenorol Gomisiwn y Gyfraith i gynnal adolygiad eang o'n system apelio i sicrhau ei bod yn gweithredu'n effeithiol. Mae'r Llywodraeth hon yn disgwyl derbyn canfyddiadau rhagarweiniol yr adolygiad ddechrau 2025, a bydd yn eu hystyried yn llawn cyn yr ymgynghoriad a fydd yn dilyn.

### Datgeliad Cofnodion Troseddol[44]

128. Ym mis Gorffennaf 2016, gofynnwyd i'r Comisiwn gan y Swyddfa Gartref adolygu un agwedd benodol ar ddatgelu cofnodion troseddol a elwir yn "hidlo". Mae hidlo yn darparu fframwaith sy'n nodi pryd na fydd rhai euogfarnau hen a bach yn cael eu cynnwys ar wiriadau safonol a manwl y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

129. Ar 1 Chwefror 2017, cyhoeddodd y Comisiwn ei adroddiad. O fewn cylch gorchwyl y prosiect hwn, roedd yr adroddiad yn cynnwys argymhelliad y dylai offeryn statudol nodi un rhestr eitemeiddiedig o droseddau na ellir eu hidlo yn y dyfodol. Mae'r Llywodraeth hon yn parhau i ystyried argymhellion y Comisiwn.

### Terfynu Tenantiaethau oherwydd Diffygdaliad Tenant[45]

130. Cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith yr adroddiad hwn yn 2006. Mae'n cynnwys argymhellion i ddiwygio'r modd y gall landlord derfynu tenantiaeth fasnachol neu breswyl tymor penodol lle nad yw'r tenant wedi cydymffurfio â'i rwymedigaethau.

131. Mae hwn yn fater pwysig i lawer o landlordiaid a thenantiaid eiddo preswyl a masnachol. O ran tenantiaethau masnachol, mae'r gyfraith bresennol yn anodd ei defnyddio, yn enwedig i'r person lleyg a'r ymarferydd anochelgar. Nid yw'n cefnogi setliad wedi'i negodi ac ychydig iawn o amddiffyniad mae'n ei ddarparu i forgeiseion a phridianeion.

132. Ym mis Mawrth 2019, argymhellodd y Pwyllgor Dethol Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol y dylai'r Llywodraeth weithredu argymhellion Comisiwn y Gyfraith. Mewn ymateb, gofynnodd y Llywodraeth flaenorol i Gomisiwn y Gyfraith ddiweddaru ei adroddiad. Mae'r Comisiwn wedi darparu opsiynau posibl a diweddariadau i waith y Comisiwn i'w hystyried i'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (MHCLG). Bydd newidiadau i fforffedu yn gofyn am gydbwyso gofalus rhwng hawliau

---

42 High Court’s Jurisdiction in Criminal Proceedings (LC324) (27.07.2010)

43 (2010) LC324

44 Criminal records disclosure: Non-Filterable Offences (LC371) (01.02.17)

45 Termination of Tenancies for Tenant Default (LC303) (31.10.06)

a chyfrifoldebau landlordiaid a lesddeiliaid. Bydd angen deddfwriaeth sylfaenol hefyd ar gyfer unrhyw newidiadau.

**Strwythurau Gwrandawiadau Cyfraith Cyflogaeth[46]**

133. Roedd 13eg Rhaglen Diwygio'r Gyfraith Comisiwn y Gyfraith yn cynnwys adolygiad o strwythurau gwrandawiadau cyfraith cyflogaeth. Cylch gorchwyl y prosiect oedd adolygu awdurdodaethau'r tribiwnlys cyflogaeth, y Tribiwnlys Apêl Cyflogaeth a'r llysoedd sifil mewn materion cyflogaeth a gwahaniaethu a gwneud argymhellion ar gyfer eu diwygio, heb ystyried ailstrwythuro mawr system y Tribiwnlys Cyflogaeth. Cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith ei adroddiad ar 28 Ebrill 2020, gan wneud 23 o argymhellion ar gyfer newidiadau i strwythurau'r Tribiwnlys Cyflogaeth.

134. Ymatebodd y Llywodraeth flaenorol i adroddiad Comisiwn y Gyfraith ar Strwythurau Gwrandawiadau Cyfraith Cyflogaeth, gan groesawu'r adroddiad a'r ystyriaeth fanwl y mae'r Comisiwn wedi'i rhoi i'r pwnc pwysig hwn. Yn unol ag argymhelliad Comisiwn y Gyfraith, mae'r Llywodraeth hon wedi ymrwymo i gynyddu'r terfyn amser y gall gweithwyr wneud hawliad cyflogaeth o'i fewn o dri mis i chwe mis. Fel yr amlinellwyd yn y ddogfen Camau Nesaf i Wneud i Waith Dalu, bydd mesurau i ymestyn y terfyn amser ar gyfer cyflwyno hawliadau i Dribiwnlysoedd Cyflogaeth yn cael eu hychwanegu trwy welliant yn ystod pasio'r Bil Hawliau Cyflogaeth.

135. Roedd dau o'r argymhellion yn ymdrin â lleoliad barnwrol mwy hyblyg. Gan mai materion i'r farnwriaeth yw'r rhain, nid yw'r Llywodraeth hon yn gallu gwneud sylwadau penodol ar yr argymhellion, ond fe'u rhannwyd gyda chydweithwyr barnwrol i'w hystyried.

**Gwarantau Cyfryngol[47]**

136. Ym mis Mehefin 2019, gofynnodd BEIS i Gomisiwn y Gyfraith gynnal "astudiaeth gwmpasu" i hawliau buddsoddwyr mewn system o warantau cyfryngol. Yn yr oes fodern, pan fydd person yn buddsoddi mewn cyfranddaliadau neu fondiau, mae'n annhebygol y byddant yn derbyn tystysgrif bapur. Yn lle hynny, mae'r rhan fwyaf o fuddsoddwyr yn dal gwarantau trwy gofnodion credyd cyfrifiadurol mewn cofrestr o'r enw CREST, trwy gadwyn o gyfryngwyr ariannol. Mae'r system gyfryngol hon wedi gwneud masnachu'n sylweddol gyflymach, yn rhatach ac yn fwy cyfleus. Fodd bynnag, mae dal cyfranddaliadau yn y ffordd hon yn golygu nad yw enw'r buddsoddwr yn ymddangos ar gofrestr yr aelodau ac nad yw ef neu hi'n aelod o'r cwmni. Gall olygu nad oes gan y buddsoddwr fynediad at yr holl hawliau cyfranddalwyr y byddai ganddynt gyda thystysgrif bapur, fel yr hawl i bleidleisio ar

[46] Employment law hearing structures (LC390) (29.04.20)

[47] Intermediated Securities 13th Prog (LC377)

benderfyniad cwmni. Mae ansicrwydd hefyd ynghylch yr iawndal cyfreithiol sydd ar gael, yn enwedig os yw cyfryngwr yn y gadwyn yn wynebu anawsterau ariannol.

137. Cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith ei astudiaeth gwmpasu ym mis Tachwedd 2020. Darparodd hon ddadansoddiad o'r gyfraith sy'n sail i warantau cyfryngol ynghyd â phryderon cyfranogwyr y farchnad. Ni wnaeth yr astudiaeth argymhellion ffurfiol ar gyfer diwygio, ond nododd ystod o atebion posibl i'r pryderon a nodwyd i ddarparu sail ar gyfer gwaith a thrafodaeth bellach gyda chyfranogwyr y farchnad. Roedd yr atebion posibl a ystyriwyd yn cynnwys:

- Ymyrraeth gyfreithiol wedi'i thargedu i fynd i'r afael â materion penodol, megis creu rhwymedigaeth newydd ar gyfryngwyr i drefnu, ar gais, i fuddsoddwr dderbyn gwybodaeth, mynychu cyfarfodydd a phleidleisio.
- Newid systemig, fel cael gwared ar gyfryngu yn gyfan gwbl, neu gadw cyfryngu ond rhoi opsiwn amgen i fuddsoddwyr o ddal eu gwarantau'n uniongyrchol ar ffurf electronig, wedi'i moderneiddio. Datrysiadau technolegol fel technoleg llyfr cyfrifon wedi’i ddosbarthu.
- Newidiadau deddfwriaethol neu reoleiddiol posibl i gadarnhau y dylid dosbarthu asedau cyfryngwr ansolfent i fuddsoddwyr terfynol ar sail gymesur.

138. Ers cyhoeddi astudiaeth Comisiwn y Gyfraith, mae dau adolygiad annibynnol a gomisiynwyd gan y Llywodraeth flaenorol wedi gwneud argymhellion pwysig yn ymwneud â'r fframwaith a'r trefniadau ar gyfer dal cyfranddaliadau. Y cyntaf oedd Adolygiad Rhestrau'r DU gan yr Arglwydd Hill o Oareford, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021. Roedd hyn yn cynnwys argymhelliad y dylid ystyried sut y gellir defnyddio technoleg i wella cyfranogiad buddsoddwyr manwerthu mewn gweithredoedd corfforaethol a'u rôl stiwardiaeth briodol. Yr ail oedd adolygiad Mark Austin o godi cyfalaf eilaidd, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2022. Gan dynnu ar bapur cwmpasu Comisiwn y Gyfraith, roedd hyn yn cynnwys galwad am ymgyrch i ddigideiddio, gan ddechrau gyda dileu tystysgrifau cyfranddaliadau papur, ond gan ymestyn i sicrhau bod yr hawliau sydd ynghlwm wrth gyfranddaliadau, beth bynnag fo'u ffurf, yn llifo i fuddsoddwyr terfynol yn gyflym, yn glir ac yn effeithlon. Galwodd yr adroddiad am i Dasglu Digideiddio fwrw ymlaen â hyn.

139. Sefydlwyd y Tasglu Digideiddio ym mis Gorffennaf 2022 gyda'r nod o hwyluso cael gwared ar y cyfranddaliadau sy'n weddill sydd ar ffurf bapur o hyd, gan wella'r system bresennol o berchnogaeth cyfranddaliadau wedi’u cyfryngu. Cyhoeddodd y Tasglu adroddiad interim ym mis Gorffennaf 2023. Mae'r adroddiad yn nodi pedwar model dal cyfranddaliadau ar gyfer cyn-gyfranddalwyr tystysgrifedig:

- Sefydlu a chynnal fersiwn ddigidol o'r system bresennol.
- Cyfranddalwyr yn dod yn aelodau uniongyrchol o CREST.
- Trawsnewid y cyfranddaliadau i Storfa Gwarantau Ganolog, i'w cyfryngu a'u gweinyddu drwy enwebai (megis cwmni cofrestru neu frocer).
- Defnydd posibl o dechnoleg llyfr cyfrifon wedi’i ddosbarthu.

140. Cynigiodd yr adroddiad interim y model enwebai (y trydydd opsiwn uchod) fel y prif opsiwn, ac mae wedi cynnal cyfnod o ymgysylltu â'r cyhoedd, fel cyfle i randdeiliaid roi adborth uniongyrchol ar y cynnig hwn, ei oblygiadau a'r opsiynau eraill. Unwaith y bydd yr adroddiad terfynol wedi'i gyhoeddi, bydd y Llywodraeth hon yn asesu'r argymhellion ac yn nodi'r camau y mae angen eu cymryd nesaf.

141. Roedd un o'r argymhellion yn adroddiad Comisiwn y Gyfraith – y dylid diwygio adran 793 o Ddeddf Cwmnïau 2006 i alluogi cwmnïau i adnabod a chyfathrebu'n haws â pherchnogion buddiol eu cyfranddaliadau – hefyd yn argymhelliad yn adolygiad Mark Austin o godi cyfalaf eilaidd. Disgwylir i'r Llywodraeth hon weithredu'r newid hwn ar ôl ystyried adroddiad terfynol y Tasglu, a all hefyd wneud argymhellion mewn perthynas ag adran 793.

142. Oherwydd gwaith ar flaenoriaethau eraill y Llywodraeth, prin yw'r gwaith pellach a wnaed ar faterion cyfreithiol eraill sy'n gysylltiedig â pherchnogaeth cyfranddaliadau cyfryngol a godwyd yn adroddiad Comisiwn y Gyfraith, megis yr ansicrwydd ynghylch yr iawndal cyfreithiol sydd ar gael, os bydd cyfryngwr yn y gadwyn yn wynebu anawsterau ariannol.

### Camymddwyn mewn Swydd Gyhoeddus[48]

143. Mae camymddwyn mewn swydd gyhoeddus yn drosedd cyfraith gyffredin: nid yw wedi'i diffinio mewn statud. Mae'n cario dedfryd uchaf o garchar am oes. Mae'r drosedd yn ei gwneud yn ofynnol bod: swyddog cyhoeddus sy'n gweithredu fel y cyfryw; yn fwriadol yn esgeuluso cyflawni ei ddyletswydd a/neu'n camymddwyn yn fwriadol; i'r fath raddau fel ei fod yn sarhad ar ymddiriedaeth y cyhoedd yn y deiliad swydd; heb esgus na chyfiawnhad rhesymol.

144. Cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith ei adroddiad terfynol ym mis Rhagfyr 2020. Argymhellodd y dylid diddymu'r drosedd a'i disodli â dwy drosedd statudol:

- Trosedd llygredd mewn swydd gyhoeddus: a fyddai'n berthnasol lle mae deiliad swydd gyhoeddus yn fwriadol yn defnyddio neu'n methu â defnyddio ei safle neu bŵer cyhoeddus at ddiben cyflawni budd neu niwed, lle byddai'r ymddygiad hwnnw'n cael ei ystyried yn amhriodol iawn gan "berson rhesymol". Bydd gan ddiffynnydd i'r drosedd hon amddiffyniad os gallant ddangos bod eu hymddygiad, ym mhob amgylchiad, er budd y cyhoedd.
- Trosedd torri dyletswydd mewn swydd gyhoeddus: a fyddai'n berthnasol lle mae deiliad swydd gyhoeddus yn ddarostyngedig i ac yn ymwybodol o ddyletswydd i atal marwolaeth neu anaf difrifol sy'n codi dim ond yn rhinwedd swyddogaethau'r swydd gyhoeddus, maent yn torri'r ddyletswydd honno, ac wrth wneud hynny maent yn ddi-hid ynghylch y risg o farwolaeth neu anaf difrifol.

---

48 Misconduct in Public Office (LC397) (03.12.20)

145. Mae'r Llywodraeth hon yn ystyried argymhellion Comisiwn y Gyfraith yn weithredol.

**Cyfraith Etholiadol[49]**

146. Cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith a Chomisiwn Cyfraith yr Alban adroddiad terfynol ar y cyd ar gyfraith etholiadol ar 16 Mawrth 2020. Argymhellodd y dylid rhesymoli cyfraith etholiadol yn un fframwaith deddfwriaethol cyson gyda chyfreithiau etholiadol cyson ar draws pob etholiad (ac eithrio lle mae angen gwahaniaethau oherwydd, er enghraifft, systemau pleidleisio gwahanol). Argymhellodd yr adroddiad hefyd y dylid moderneiddio'r broses ar gyfer herio etholiadau, ac y dylid symleiddio a diweddaru troseddau etholiadol presennol.

147. Ni wnaeth y Llywodraeth flaenorol ymateb yn ffurfiol i'r adroddiad. Ni wnaeth Deddf Etholiadau 2022 gydgrynhoi cyfraith etholiadol yn y ffordd a argymhellwyd gan Gomisiwn y Gyfraith ond fel rhan o'r Rhaglen Uniondeb Etholiadol, mae wedi mynd i'r afael â nifer o faterion a godwyd ynddi. Mae'r rhain yn cynnwys cyflwyno gofyniad am adnabod ffotograffig ar gyfer pleidleisio mewn gorsafoedd pleidleisio, newidiadau i'r drefn argraffnod digidol, cyflwyno mesurau uniondeb ychwanegol ar gyfer pleidleisio drwy'r post a materion eraill a oedd yn destun argymhellion a wnaed gan yr adroddiad terfynol. Yn dilyn yr Etholiad Cyffredinol ym mis Gorffennaf, mae'r Llywodraeth newydd yn edrych i gyflwyno mesurau fel y nodir yn ymrwymiadau maniffesto a bydd yn ystyried elfennau eraill o gyfraith etholiadol, ac wrth wneud hynny bydd yn edrych ar argymhellion y Comisiynau Cyfraith fel rhan o'r broses honno.

**Benthyg Croth[50]**

148. Mae'r Llywodraeth yn cefnogi benthyg croth fel rhan o opsiynau beichiogi â chymorth, i helpu pobl sy'n cael anhawster i ddechrau eu teulu eu hunain.

149. Mae Comisiwn y Gyfraith wedi ymgynghori'n eang ar y pwnc hwn, sy'n creu amrywiaeth eang o safbwyntiau, ac rydym yn croesawu'r adroddiad cynhwysfawr hwn, *Building Families Through Surrogacy: A New Law.*

150. Mae adroddiad a deddfwriaeth ddrafft Comisiwn y Gyfraith yn amlinellu cyfundrefn reoleiddio newydd ar gyfer benthyg croth sy'n cynnig eglurder, mesurau diogelwch a chefnogaeth – i'r plentyn, y fam ddirprwyol a'r rhieni a fydd yn magu'r plentyn. Mae'n cynnwys llwybr newydd i fod yn rhiant cyfreithiol, lle byddai darpar rieni yn dod yn rhieni i'r plentyn o'i enedigaeth, yn hytrach na chael gorchymyn rhieni ar ôl genedigaeth y plentyn. Byddai hyn yn amodol ar y fam ddirprwyol yn cael yr hawl i dynnu caniatâd yn ôl.

49 Electoral Law (LC389) (SLC256) (16.03.20)

50 Building families through surrogacy: a new law (LC 411) (28.03.23)

151. Byddai'r llwybr newydd yn cael ei oruchwylio a'i gefnogi gan Sefydliadau Benthyg Croth Rheoleiddiedig (RSOau) dielw, a fyddai yn eu tro yn cael eu rheoleiddio gan yr Awdurdod Ffrwythloni Dynol ac Embryoleg (HFEA). O dan y llwybr newydd, ac am y tro cyntaf, byddai gwiriadau a mesurau diogelwch yn digwydd cyn i'r trefniant benthyg croth gael ei wneud a chyn i'r plentyn gael ei genhedlu.

152. Mae llawer o fanylion i'w hystyried yn ofalus, ac mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn gweithio gydag Adrannau Llywodraeth allweddol eraill, sydd â diddordeb yn y newidiadau a awgrymir, i adolygu argymhellion yr adroddiad. Bydd hyn yn llywio ymateb gan y Llywodraeth newydd i'r adroddiad, a fydd yn cael ei gyhoeddi maes o law.

**Gwneud i Dir Weithio: Hawddfreintiau, Cyfamodau a Phroffidiau à Prendre [51]**

153. Nododd adroddiad 2011 Comisiwn y Gyfraith ar hawddfreintiau, cyfamodau a phroffidiau à prendre argymhellion a fyddai’n symleiddio ac yn egluro’r rheolau sy’n ymwneud â chaffael hawddfreintiau trwy bresgripsiwn (neu ddefnydd hir o dir) ac oblygiad, yn ogystal â therfynu hawddfreintiau trwy adael.

154. Ar ben hynny, byddai'r diwygiadau'n rhoi mwy o hyblygrwydd i ddatblygwyr wrth adeiladu ystadau lle byddai nifer o berchnogion a defnyddwyr. Roedd y diwygiadau hefyd yn cynnwys cynnig i ymestyn awdurdodaeth Siambr Tiroedd yr Uwch Dribiwnlys i ganiatáu rhyddhau ac addasu rhai hawddfreintiau ac elw. Mae'r argymhellion wedi'u cynllunio i wneud y gyfraith sy'n ymwneud â hawddfreintiau, cyfamodau a phroffidiau à prendre yn addas ar gyfer anghenion yr unfed ganrif ar hugain a system gofrestru fodern.

155. O ystyried treigl amser, yn 2021 darparodd y Comisiwn opsiynau posibl a diweddariadau i waith y Comisiwn i'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (MHCLG). Ystyriwyd y rhain ochr yn ochr â'r adroddiadau ar Lesddaliad Preswyl a Chyfunddaliad, ond ni chawsant eu datblygu yn Neddf Diwygio Lesddaliad a Rhydd-ddaliad 2024.

[51] Making Land work: Easements, Covenants and Profits a Prendre (LC 327) (08.06.2011)

# Penderfyniadau a gymerwyd i beidio â gweithredu

**Bil drafft ar gyfer rheolau trosglwyddo perchnogaeth[52]**

156. Yn dilyn ymateb y Llywodraeth flaenorol i'r adroddiad ar Ragdaliadau Defnyddwyr mewn Ansolfedd Manwerthwyr (uchod) a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2018, gofynnodd i Gomisiwn y Gyfraith gynhyrchu deddfwriaeth ddrafft ar y newidiadau technegol sydd eu hangen i egluro'r gyfraith sy'n berthnasol i drosglwyddo perchnogaeth. Ym mis Ebrill 2021, cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith ei adroddiad a Bil drafft a fyddai'n cyflwyno rheolau newydd i Ddeddf Hawliau Defnyddwyr 2015.[53] Wrth ymgymryd â'r gwaith hwn, daeth Comisiwn y Gyfraith yn ymwybodol o arfer eang ymhlith manwerthwyr ar-lein o ddefnyddio telerau ac amodau i ohirio ffurfio contractau gwerthu defnyddwyr nes bod y nwyddau'n cael eu hanfon at y defnyddiwr. Ar ôl ystyried yr arfer, barn Comisiwn y Gyfraith oedd y byddai'n lleihau effaith y diwygiadau posibl yn ei Fil drafft sy'n cynnig cyflwyno rheolau newydd i Ddeddf Hawliau Defnyddwyr 2015, gan fod effeithiolrwydd y cynigion yn dibynnu ar gontract gwerthu yn ei le.

157. Cyhoeddodd y Llywodraeth flaenorol yr ymgynghoriad “Diwygio Polisi Cystadleuaeth a Defnyddwyr” ym mis Gorffennaf 2021. Ceisiodd yr ymgynghoriad ragor o wybodaeth ynghylch a oedd yr arfer o ddefnyddio telerau ac amodau i ohirio ffurfio contractau gwerthu defnyddwyr yn gyffredin ac a oedd yn achosi niwed i ddefnyddwyr.

158. O ganlyniad i'r ymgynghoriad, penderfynodd y Llywodraeth flaenorol beidio â bwrw ymlaen â chynigion Comisiwn y Gyfraith ar y pryd ond dywedodd y byddai'n parhau i fonitro'r mater. Cyhoeddodd y Llywodraeth flaenorol ei hymateb i'r ymgynghoriad yn “Diwygio Polisi Cystadleuaeth a Defnyddwyr: Ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad” ym mis Ebrill 2022.[54]

---

52 Consumer sales contracts: transfer of ownership (LC398) (22.04.21)

53 Consumer sales contracts: transfer of ownership (LC398) (22.04.21)

54 https://www.gov.uk/government/consultations/reforming-competition-and-consumer-policy

E03342838

978-1-5286-5655-9